Y CARDI BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 461 | Mai 2025 | Pris £1.50

# Ethol Meurig James FRAgS yn Gadeirydd CARAS UK



Mae Cyngor Gwobrau'r Cymdeithasau Amaethyddol Brenhinol (CARAS UK) yn falch o gyhoeddi etholiad unfrydol Mr Meurig James FRAgS yn Gadeirydd newydd, yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Cliff, ger Aberteifi, ar 24ain Ebrill 2025.

Mae Meurig yn olynu Mr Nick Green FRAgS, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Fferm Lye Cross, Redhill, Bryste, sy'n rhoi'r gorau i'w swydd ar ôl tymor uchel ei barch ac effeithiol fel Cadeirydd. Bydd Meurig yn gwasanaethu am dymor o ddwy flynedd yn arwain y sefydliad urddasol ledled y DU, sy'n cydnabod unigolion sydd wedi gwneud cyfraniadau eithriadol i gynnydd amaethyddol a gwledig.

Yn frodor o Hendy-gwyn ar Daf, dechreuodd Meurig James ei yrfa ar fferm laeth deuluol, Fferm Pengawse cyn symud i faes bridio gwartheg a geneteg. Ym 1993, ymunodd â Chymdeithas Holstein Prydain, lle cododd i fod yn Bennaeth Datblygu Brid ar gyfer Holstein UK. Yn y rôl hon, mae'n goruchwylio dosbarthiad dros 140,000 o wartheg yn flynyddol ac mae hefyd yn arwain y Ganolfan Data Gwartheg Cenedlaethol.

Mae Meurig wedi chwarae rhan ganolog wrth ehangu gwasanaethau dosbarthu bridiau i gynnwys 14 o fridiau llaeth a bîff, ac wrth gyflwyno nodweddion a chyfansoddion newydd i gefnogi blaenoriaethau bridio modern. Mae ei waith wedi cyfrannu'n sylweddol at wella iechyd y fuches, cynhyrchiant, a phenderfyniadau bridio sy'n cael eu gyrru gan ddata i ffermwyr ledled y DU. Yn ffigwr adnabyddus mewn sioeau ac yn nigwyddiadau amaethyddol, mae Meurig wedi cynrychioli'r DU yn rhyngwladol, gan gynnwys mewn gweithdai yn Ewrop, a thrwy deithiau astudio yn yr Ariannin a Gogledd America. Mae hefyd wedi dal uwch rolau o fewn mudiad y Ffermwyr Ifanc yng Nghymru, Clwb Holstein De Cymru ac ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Pwyllgor Da Byw Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru ac yn Gyfarwyddwr Anrhydeddus Cynorthwyol dros Wartheg yn Sioe Frenhinol Cymru.

"Mae'n anrhydedd anhygoel cael fy ethol yn Gadeirydd CARAS UK" meddai Meurig. "Mae CARAS yn chwarae rhan hanfodol wrth ddathlu'r bobl sy'n helpu i yrru ein diwydiant yn ei flaen, ac edrychaf ymlaen at hyrwyddo eu cyflawniadau ar draws pedair gwlad y DU."

## DATHLU 100 OED



Mrs Nansi Evans ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn 100 oed ar Ebrill 25ain.

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **I'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr:**: | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **<u>10fed</u>** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.


# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, mi fydd y gŵr a finnau'n dathlu priodas arian. Chwarter canrif yn ôl, fe aethom ar ein mis mêl i America a Mecsico, ac mae'n anodd credu sut mae technoleg wedi newid ers hynny. Doedd gen i ddim ffôn symudol yn y cyfnod hwnnw, a byddem yn tynnu lluniau gyda chamera oedd â ffilm ynddo! Doedd dim sôn am uwchlwytho lluniau i'r cwmwl, a byddai angen didoli'r lluniau, drwy daflu'r rhai â bys yng ngornel y llun neu allan o ffocws, a chadw'r goreuon er mwyn eu rhoi mewn albwm.

Ac yn sicr yn y cyfnod hwnnw, doedd archebu gwyliau ar-lein ddim yn rhywbeth arferol. Felly er mwyn paratoi ar gyfer y mis mêl, roedd angen mynd at gwmni gwyliau i drefnu'r cyfan drosom. Ac roedd hynny yn ei hun yn rhywbeth cyffrous i'w wneud. Roedd angen ymddiried yn llwyr yn y cwmni gwyliau y byddai modd iddyn nhw ddod o hyd i'r gwestai gorau, gyda bargeinion da, a'r hediadau rhataf.

Doedd ein mis mêl ni ddim yn fêl i gyd ar y dechrau, waeth i fi gyfaddef. Yn y cyfnod hwylus hwn, mae modd chwilota ar y we ar safleoedd tywydd pob gwlad, ac asesu'r cyfnod delfrydol i fynd yno. Ond wrth gwrs, doedd hynny ddim yn bosibl yn 2000. A phan gyrhaeddom Fort Lauderdale yn Florida, fe sylweddolom ein bod wedi glanio yng nghanol cyfnod y corwyntoedd. Felly bu'n rhaid llogi car a dianc rhag y gwyntoedd mawrion. A rhaid cyfaddef bod yr antur honno heb drefnu dim oll o flaen llaw, wedi bod yn brofiad a hanner. Fe aethom i ganolfan Disney, i Cape Canaveral, a lawr i'r de i weld y crocodiliaid. Doedd y tywydd ddim yn berffaith ym Mecsico chwaith, ond unwaith eto, bu'n rhaid addasu ein trefniadau. A dydw i dal ddim yn siŵr sut y llwyddais i gael fy nhrosglwyddo i Fanc Lloyds yn Llandysul, pan geisiais gysylltu â'r banc yn ganolog o ffôn yn y gwesty i nodi fod peiriant twll yn y wal wedi llyncu fy ngherdyn banc.

Yn yr oes hon, mae'n bur debyg y byddem yn medru canslo fy ngherdyn a datrys y cyfan drwy wasgu un botwm ar ap ar fy I-phone. Ond llwyddom i ymdopi yn rhyfeddol chwarter canrif yn ôl, wrth wynebu heriau digon tebyg i heddiw.

Ydy, mae'r oes wedi dechnolegol wedi datblygu gymaint mewn chwarter canrif, ac ar raddfa rhyfeddol o gyflym, ond weithiau mae'n braf edrych yn ôl a gwerthfawrogi pa mor syml oedd bywyd bryd hynny. Cofiwch chi, does gen i ddim llawer o luniau call o'r mis mêl hwnnw, gan i ni fynd i Sea World, ac mi wlychodd ffilm y camera wrth i fi dynnu lluniau dolffiniaid!

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Y Parch. Gareth Ioan*

## Cultura Dei

*"Cry 'Havoc!', and let slip the dogs of war"*, meddai Mark Anthony yn nrama Shakespeare, *Julius Caesar* A dyna fu'r gri yn rhy aml yn ddiweddar, fel ag erioed. Mae penawdau'r newyddion yn llawn o'r trychinebau cyfredol – bydded yn Wcrain, Gaza, Sudan, Yemen, Syria a degau o lefydd eraill ar draws y byd. Deued heddwch yn ddiymdroi yw ein gweddi.

Ond mae'r platfformau newyddion a'r cyfryngau cymdeithasol yn llafar iawn ynghylch rhyfeloedd o fath arall hefyd – rhyfeloedd diwylliannol. Brwydr syniadol yw rhyfel ddiwylliannol. Cyfeirio mae'r term at yr ymgiprys parhaus sy'n bodoli rhwng carfannau cymdeithasol, gwahanol eu byd-olwg, i hawlio'r tir moesol mewn cymdeithas. Y nod yw sicrhau bod eu byd-olwg hwy, eu gwerthoedd hwy, eu moeseg hwy, yn lliwio ymwneud cymdeithasol ac yn llywio polisi cyhoeddus.

## GOHEBWYR LLEOL

ALMA: Margaret Evans
01994 230761
BANCYFELIN: Merle Jones
01267 211300
eleanormerle@icloud.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA
Parch, Beti-Wyn James
beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN: Tegwen James
01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun) Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT: Valerie Davies
01994 448475
vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
CWMBACH: Jane Evans
01994 448790
teulujames@btinternet.com
CWMFELIN MYNACH: Nansi Evans
01994 448392
EFAILWEN: Angharad Booth Taylor
01994 419221
angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN: Peter Crowdie
01994 230033
peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN: Heather Jenkins
01994 240138
jenkinsh2809@gmail.comY
(Newyddion Tabernacl) Parch. Guto Llywelyn
01269 851655
gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG: Sian Jackson
01994 240981
jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
LLANBOIDY: Norah Heseltine
01994 448241
sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN: Jill Lewis
01994 419495
jill.lluest@gmail.com
LLANGYNIN: Susan Phillips
01994 231066
siwperiw@gmail.com
MEIDRIM: Patsy Lewis
01994 230369
talarwen@hotmail.com
PENYBONT: Linda Davies
01994 484657
lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID: Doreen Adams
01994 240581
RHYDWILYM: Eilir Davies
01994 419649
eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
TRELECH: Alyson Harries
01994 484359
alysonharries@outlook.com

Mae'r frwydr fel rheol yn cael ei darlunio (a'i gorsymleiddio) yn un ddeuol. Mae'n frwydr rhwng carfannau ceidwadol, ar yr un llaw, sy'n ceisio cynnal yr hyn maen nhw'n ei ystyried yn 'werthoedd traddodiadol', a charfannau rhyddfrydig a blaengar (*progressive*), ar y llaw arall, sy'n ceisio newid y *status quo* a'r berthynas rym o fewn cymdeithas o blaid pobl sy'n cael eu hymylu, eu hynysu a'u hanwybyddu gan y drefn hanesyddol. Mae'n densiwn oesol, a dweud y gwir.

Mae'r term yn cylchredeg ers rhyw ganrif ond daeth i'r amlwg yn y degawdau diweddar o ganlyniad i gyhoeddi cyfrol gan y cymdeithasegydd J. D. Hunter o Brifysgol Virginia, *Culture Wars: the Struggle to Define America*, yn 1991. Dadleuodd Hunter bod cymdeithas yr UDA yn cael ei bolareiddio'n gynyddol o gwmpas rhai pynciau cymdeithasol penodol a bod hynny'n dod yn fwy o nodwedd o fewn y gymdeithas na'r gwahaniaethau sydd rhwng pobl ar sail dosbarth, hil, crefydd neu blaid wleidyddol. Ymysg y pynciau 'botwm coch' (*hot-button*) hyn rhestrodd erthylu, yr hawl i gario drylliau, hawliau pobl hoyw, y defnydd o gyffuriau meddal, sensoriaeth, preifatrwydd a pherthynas yr eglwys a'r wladwriaeth. Mae eglwysi efengylaidd sydd ar adain dde gwleidyddiaeth America wedi bod yn flaenllaw yn hyrwyddo'r 'brwydrau' hyn.

Erbyn heddiw mae'r term 'rhyfeloedd diwylliannol' wedi lledu i wledydd eraill ar draws y byd. Ac mae'r pynciau wedi amlhau hefyd. Maen nhw bellach yn cynnwys pynciau megis cynhesu byd-eang, brechlynnau, hawliau pobl trawsrywiol a hawliau dynol yn gyffredinol. Fe glywch pleidiau a charfannau ar y dde ym Mhrydain yn aml yn gwisgo lifrai'r 'rhyfel ddiwylliannol' i hyrwyddo eu safbwyntiau ceidwadol nhw.

Yn UDA un amlygiad diweddar o'r rhyfeloedd hyn yw ymosodiad yr Arlywydd cyfredol ar bolisïau DEI y wlad honno. Saif yr acronym DEI am *diversity, equality and inclusion*. Yng ngwledydd Prydain rydyn ni'n fwy cyfarwydd â'r termau 'cydraddoldeb' a 'chyfle cyfartal' yn y cyd-destun hwn. Byddwn yn sôn am barchu amrywiaeth a sicrhau ein bod yn gynhwysol yn ein hagweddau a'n gweithredoedd. Mae'r etheg honno wedi hen ennill ei phlwyf o fewn ein diwylliant. Fodd bynnag, fe ymddengys bod hynny'n anathema i'r Arlywydd a'i ddilynwyr. Ymddengys mai cynnal unffurfiaeth, anghydraddoldeb a pholisïau sy'n allgau grwpiau di-rym yw'r polisi llywodraethol.

Mae'r Arlywydd a'i ddisgyblion bellach hyd yn oed yn hawlio bod polisïau sy'n ceisio unioni'r dafol rym hanesyddol anghyfartal yn gwahaniaethau'n hiliol yn erbyn pobl gwyn, heterorywiol, cyfforddus eu byd – fel profwyd gydag ymosodiad yr Arlywydd Gweriniaethol ar bolisïau adfer cydraddoldeb gwladwriaeth De Affrica yn ddiweddar. Yn anffodus mae lleisiau hyglyw yng ngwledydd Prydain a Chymru fach sy'n barod iawn i atseinio safbwyntiau tebyg.

Yn yr iaith Ladin ffurf berthynol (*genitive case*) ar yr enw 'duw' yw *dei*. Hynny yw, mae'n nodweddu'r hyn sy'n perthyn i dduw (*deus*). Yn y rhyfel diwylliannol sydd ohoni mae'n hanfodol bod ein heglwysi a'n henwadau a phob un ohonom ni yn gwbl glir ar ba ochr i'r ddadl mae'r diwylliant dwyfol – y *cultura dei*. A rhag bod unrhyw amheuaeth, nodweddion y diwylliant hwnnw yw cariad, trugaredd, goddefgarwch, cyfiawnder, cydraddoldeb, cynwysoldeb a pharch cyffredin. O Arglwydd, clyw ein cri!

**Cydymdeimlo**

Wrth i'r Cardi Bach fynd i'r wasg, daeth y newyddion trist am farwolaeth Jill Lewis, Llanglydwen. Mae'r cannoedd o deyrngedau i Jill ar gyfryngau cymdeithasol yn adrodd cyfrolau am ei phoblogrwydd nid yn unig yn ei milltir sgwar ond ar hyd a lled Cymru. Ar ran swyddogion a darllenwyr y Cardi Bach, rydym yn cydymdeimlo'n ddiffuant ag Eurfyl, ein Cadeirydd, ei phlant, Ifan, Elen a Tomos, ei hŵyr bach Twm, a'r teulu oll.

*Iola Wyn, Is-olygydd*

# Clonc a Phosau John Arfon

Cafwyd noson ardderchog yn Ysgol Dyffryn Taf yng Nghyngerdd Noddwyr Côr Meibion Hendy-Gwyn a'r Cylch yn ddiweddar. Mae'r côr wedi ehangu ac yn mynd o nerth i nerth dan ofal arbennig eu harweinydd medrus Hefina Jones a'u cyfeilyddion Owain Lewis a Heather Jenkins. Cafwyd amrywiaeth o eitemau gwahanol a phoblogaidd gan y côr a mwynhawyd hwy yn fawr gan y gynulleidfa deilwng a oedd yn bresennol

Yn ogystal cafwyd eitemau gan y tenor adnabyddus o'r ardal sef Trystan Llŷr Griffiths a'n swynodd i gyd gyda'i ganu grymus a'i berfformiadau ysgytwol o'i ddewis. Hefyd, hoffwn longyfarch Sioned, ei gyfeilyddes ddawnus.

Bu'r noson yn llwyddiant mawr dan ofal yr amryddawn arweinydd Y Parch. Huw George a braf oedd ei weld unwaith yn rhagor ar ei orau.

Cydymdeimlwn yn fawr â Claude James a Gwyn Davies, 43 Bryngwenllian, Hendygwyn ar farwolaeth Lynette, gwraig a mam annwyl.

Rwy'n siwr fod yr holl ffermwyr a garddwyr yn diolch am yr ychydig law a gafwyd yn ddiweddar, ar ôl bron ddeufis o dywydd hollol sych. Gobeithio yn wir y cawn law yn y nos a heulwen yn y dydd o hyn ymlaen.

**Dyma atebion Cwrosw a Chwilrif y mis diwethaf.**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | X | O | X | X | O |
| O | X | X | O | X | O |
| X | O | O | X | O | X |
| X | X | O | X | O | O |
| 0 | O | X | O | X | X |
| X | O | X | O | O | X |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | 7 | 1 | 9 | 6 | 4 | 8 | 5 | 3 |
| 6 | 8 | 4 | 2 | 5 | 3 | 9 | 7 | 1 |
| 3 | 9 | 5 | 1 | 8 | 7 | 2 | 4 | 6 |
| 9 | 2 | 8 | 4 | 3 | 5 | 6 | 1 | 7 |
| 5 | 1 | 7 | 8 | 9 | 6 | 4 | 3 | 2 |
| 4 | 3 | 6 | 7 | 2 | 1 | 5 | 8 | 9 |
| 8 | 5 | 3 | 6 | 1 | 9 | 7 | 2 | 4 |
| 1 | 4 | 9 | 5 | 7 | 2 | 3 | 6 | 8 |
| 7 | 6 | 2 | 3 | 4 | 8 | 1 | 9 | 5 |

**Dyma ddau arall i'ch diddori**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | O | | | | |
| | | | | X | X |
| O | | | | | |
| | | | | O | |
| | | X | | | |
| | O | | | | X |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | | | | 8 | 4 | | 2 |
| | 3 | 8 | | 5 | | | 9 | |
| 7 | | 2 | 9 | | 6 | | | 1 |
| | | 7 | | | | 2 | | |
| 8 | 2 | | 7 | 6 | | | 4 | 3 |
| | | 1 | | | 5 | 9 | | |
| 6 | | | 5 | | | | | 9 |
| | 8 | | | 9 | 7 | 3 | 2 | 5 |
| | | 5 | 8 | | 3 | | 5 | |

**Dyma atebion posau y mis diwethaf**

**A) Y Croesair**
Ar Draws
1. Hanner Amser, 9. Eglwysi, 10. Werin, 11. Grymus, 12. Golchdy, 14. Simon, 15. Riga, 17. Aria, 18. Anlwc, 20. Ysbonc, 21. Gwesty, 24. Y Glas, 25. Annifyr, 26. Pantyfedwen

I Lawr
2. Arlwy, 3. Nwydus, 4. Reis, 5. Mywion, 6. Edrychwr, 7. Deg Gorchymyn, 8. Un Dydd Ar Y Tro, 12. Sionc, 13. Golwg, 16. Gabalfa, 18. Aniset, 19. Cwrnad, 22. Safle, 23. Barf

**B) Yr Olwyn Fawr**
1. Herio, 2. Iddewon, 3. Rwdlan, 4. Pioden, 5. Offeryn, 6. Brigyn, 7. Ymdrin, 8. Morwyn, 9. Aderyn, 10. Raglan, 11. Ocsiwn, 12. Simsan

Wedi darllen y llythrennau cyntaf pob ateb dylech gael y ddihareb:

***"Hir pob ymaros"***

Yn y croesair odditano mae pob ateb yn rhif. Dylech gael gwybodaeth eang os medrwch ei ddatrys.

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | | 3 | | | 4 | | 5 | 6 |
| 7 | | | 8 | | | | | 9 | |
| | | 10 | | | | 11 | | | |
| 12 | 13 | | 14 | 15 | 16 | | | 17 | |
| | 18 | 19 | | 20 | | | 21 | | |
| | 22 | | | 23 | | | 24 | | |
| 25 | | | 26 | | | 27 | | 28 | 29 |
| | | 30 | | | | 31 | | | |
| 32 | 33 | | 34 | | | | | 35 | |
| 36 | | | | | | 37 | | | |

Ar Draws

1. Genedigaeth Robert Owen y Sosialydd4.
4. Cyhoeddi llyfr Caradog Pritchard "UnNos Ola Leuad"
7. Rhif uchaf ar y bwrdd dartiau
8. Sawl troedfedd sydd mewn 1½ milltir a 40 llathen
9. Yn 19— sefydlwyd yr NHS
10. Amelia Earhart yn glanio ym Mhorth Towyn yn 19— ar ôl croesi'r Mor Iwerydd
11. Dathliad priodas Ddiemwnt
12. Nifer o gardiau mewn pac
14. Blwyddyn y Streic Gyffredinol
18. Allwedd y drws
20. Nifer o feibion Jacob
21. Gwahanol fathau o Heinz
22. Genedigaeth Neil Kinnock a Hywel Gwynfryn 19—
23. Sgwario 9
25. Yn 20— cadarnhawyd fod pandemig Covid yng Nghymru
26. Agor rheilffordd Talyllyn
28. Marwolaeth y Frenhines Fictoria 19—
30. Rhif atomig Aur
31. Dathliad priodas Ruddem
32. Chwaraewyr mewn tîm Hoci
34. Llathenni sgwar mewn acer
35. Nifer o lythrennau yn y wyddor Groegaidd
36. Brwydr Waterloo
37. Pwysi mewn 2 dunnell

I Lawr

1. Arwyddo'r Magna Carta yn Runnymede
2. Oed yr addewid yn ôl y Beibl
3. Sefydlu Undeb Rygbi Cymru
4. Brwydr Hastings
5. Sgwariau ar fwrdd Gwyddbwyll
6. Sefydlu cymuned Gymraeg ym Mhorth Madryn Patagonia
13. Sawl owns sydd mewn 140 o bwysi
15. Sawl hen geiniog sydd mewn £38 – 5s -9c
16. Blwyddyn Eiateddfod Maldwyn a'r Cylch
17. Llathenni mewn milltir
19. Nifer llwythi Israel
21. Ffordd gyflym arfordir Gogledd Cymru A--
25. Priodas William a Kate
26. Marwolaeth David Lloyd George
27. Cynnal Senedd Glyndwr ym Machynlleth
29. Lawnsio'r Stamp cyntaf (y geiniog ddu)
33. Rhif atomig Argon
35. Sawl domino sydd mewn set

**Yr ail bôs yw cwblhau y cliwiau a dilyn y llwybr igam ogam yn y grid.**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | | 2 | | | 3 |
| | 9 | | | 10 | | |
| | 14 | | | 15 | | |
| 8 | | | | | 11 | 4 |
| | | | 16 | | | |
| | 13 | | | 12 | | |
| 7 | | | 6 | | | 5 |

Mae llythyren olaf pob ateb yn dechau yr ateb nesaf. Cymerir ch, dd, ff, ng ayb fel un llythyren;

Dyma'r cliwiau.
!. Neidr, 2. Golau byr sydyn, 3. Lleithder y croen,
4. Bloneg, 5. Geneth, 6. Fflangell, 7. Tyniad sydyn,
8. Batog, 9. Gair gramadegol, 10. Codi safle,
11. Tir yng nghanol dwr, 12. Teimlad annisgwyl,
13. Ffrwythau coed cyll, 14. Ar ben ei hun,
15. Camgymeriad, 16. Lleuad.

Dylech gael enw pentref o bwys yng Nghymu trwy ddarllen y blychau llwyd.




# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,
Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn mwynhau ychydig o heulwen y gwanwyn. Braf yw gweld cynifer wedi ymaelodi â'r Clwb 200 oddi ar y rhifyn diwethaf. Mae'ch cefnogaeth i'r clwb ac i'r Cardi Bach wir yn cael ei werthfawrogi. Os nad ydych wedi ymaelodi eisoes, beth am wneud y mis hwn? Cofiwch fod y gwobrau misol yn £20 a £30!

Dyma enwau'r sawl sydd wedi ymaelodi'n ddiweddar:-

Buddug Nelson, 2 Plas y Milwr, Heol y Priordy, C'fyrddin
PJD a NW Jones, Ar y Banc, Heol Abergwili, Caerfyrddin
Ann Thomas, Min y Ddôl, 8 Bro Derwen, Clunderwen
R.W. Williams, Bryn Eithin, Bryn Iwan
Dewi Griffiths, Cartref Clyd, 16 Lôn Hafren, San Clêr
Eilyr Thomas, Y Fedwen Aur, Llandysilio
Ann Jones, Hafan Deg, Rhiw'r Orsaf, San Clêr
Freddie Read, D/O Christine Evans, Maes yr Onnen, Pwll-Trap
Arwel Thomas, Primrose Hill, Llangynin
Rhidian Evans, Dolawenydd, Heol Caemorgan, Aberteifi
Eifion Griffiths, Felin Fach, Penffordd, Clunderwen
Angharad Davies, Merlais, Llanboidy
Elinor Jameson, Cil y Barcud, Meidrim
E.M. Davies, Y Tŷ Coets, Llanbedr Pont Steffan
Vernon Beynon, Bwlch y Ddwy Sir, Llandysilio.
Gillian Beynon, Bwlch y Ddwy Sir, Llandysilio.
Howell Jones, Courtland, Pwll Trap
Sharon Jones, Courtland, Pwll Trap


Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill ym mis Ebrill:-

£30 - 354 - Russell Llewellyn, Tŷ Uchaf, Llandysilio.

£20 - 551 - Angharad Wyn Booth-Taylor, Golwg y Grug, Glandy Cross.

Diolch yn fawr a chadwch yn ddiogel,

*Rhian*




## CYRI CIG EIDION

**Cynhwysion**
1 winwnsyn
1 afal coginio
1 ½ owns/38g menyn
1½ owns/38g blawd
2 lwy pwdin powdr cyri
1 peint o stoc
¾ pwys/350g o gig eidion wedi'i goginio a'i ddeisio
1 llwy fwrdd o chutney
2 owns/50g o swltanas
4 owns/100g o ddatys wedi'u torri
Sudd ½ lemwn
2 domato heb groen

**Dull**
Pliciwch a thorrwch yr afal a'r winwnsyn.
Ffriwch mewn menyn am 5 munud.
Ychwanegwch y powdr cyri a'r blawd.
Coginiwch am 2-3 munud arall.
Ychwanegwch y stoc a'i droi nes ei fod yn tewhau.
Ychwanegwch yr holl gynhwysion ac eithrio'r cig a mudferwch am tua 30 munud.
Ychwanegwch y cig a choginiwch yn araf am 10-15 munud arall.
Gweinwch gyda reis.


## Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda

Cyfarfod Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda

Dydd Sul, 15fed Mehefin
am 4 o'r gloch
yn festri Capel Nebo, Efailwen

Pwrpas y cyfarfod fydd trefnu taith gerdded 2025, dewis elusennau a threfnu digwyddiad ar gyfer trosglwyddo'r arian a godwyd. Gobeithio y cawn ni gynrychiolaeth dda o'r capeli i gyd yn y cyfarfod.

***(Sylwer: 3ydd Sul, nid yr 2il)***









# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

Dyma rywbeth ar gyfer mis Mai.
Wi'n gwella'n araf ar ol y llawdriniaeth ddiwedd Mawrth ond mae rhai o bethau yn broblem o hyd.

Pob lwc, *Albie*


Cywirwch y brawddegau a ganlyn:

1. Mae dau o'r pedwar plentyn yma, ond ble mae'r llall?
2. Fe ddywedodd e fod mae Sam yn absennol.
3. Beth yw enw'r bachgen pwy sy'n dod?
4. Aethon nhw i'r dref mewn y car.
5. Mae rhaid ichi fynd i'r Swyddfa Post cyn cinio.
6. Rwy'n hoff iawn o'r dair chwaer fach.
7. Rwy'n bwriadu mynd i'r Alban ac i'r Iwerddon.
8. Dewch yn gynnar – gorau po cyntaf..
9. Ddywedais i ddim byd o'r math.
10. O ble mae rheina'n dod?
11. Rhaid gofalu am y plant nad sydd yn iach.
12. Roedd Ann yn blentyn dda.
13. Gadewch i fi esbonio cyn i fi dechrau.
14. Ble rwyt ti'n mynd i heno?
15. Ar ôl chwarae, aeth y plant i eu tai.
16. Beth yw'r gair am 'dresser' yng Nghymraeg?
17. Nid yw'r plant yn siarad Cymraeg ond mae i gyd ohonynt yn deall.
18. Rwy'n mynd i Sbaen eto ond anghofiaf i byth y tro olaf imi fod yno.
19. Doedd Dewi erioed yn mynd i' capel.
20. Mae e'n caru y ferch yn fawr.
21. Mae'r plant bob amser yn lawen,.
22. Aeth e i Loegr chwe mlynedd yn ôl.
23. Fe gawson nhw ddydd ardderchog ar lan y mor.
24. Ble aethoch chi yr wythnos ddiwethaf?
25. Mae'n fraf iawn cael bod yma.
26. Rwy'n sicr mae fi sydd yn iawn.
27. Ai Ifan i'r capel bob dydd Sul.
28. Rwy'n hoffi glaw ac heulwen.
29. Hi yw'r ferch fwyaf brydferth yn y dosbarth.
30. Wyt ti'n gweithio yn y Swyddfa Gymraeg?

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO




DAVIES
Builders Merchants
Cyflenwyr ADEILADU a D.I.Y
Arddangosfa ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar agor



Ffon
Hendygwyn: 01994 240 228
San Cler: 01994 230 239
www.daviesbm.co.uk




HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



# MERCHED Y WAWR

## Cangen Beca

Gwnaeth aelodau'r gangen fynychu ein cyfarfod blynyddol ar brynhawn Mai 8fed.
Bydd Angharad Booth Taylor ac Eilir Davies yn cadw at ei swyddi fel ysgrifenyddes a thrysoryddes am y flwyddyn.

Ar ôl edrych dros sefyllfa ariannol y gangen, aethom ati i drefnu rhaglen 2025/26. Cafwyd nifer o syniadau amrywiol a diddorol gan yr aelodau. Pob lwc i Angharad wrth gysylltu â phawb. Rhian Dietcher wnaeth ennill y raffl misol.
Ym mis Mehefin bydd aelodau'r gangen yn troi tua Chrymych. Byddwn yn galw gyda Nia yn y Tŷ Bach Twt, ac yna ymlaen i ymweld â Boomerang, cyn galw yn y Crymych Arms am swper i ddod â'r tymor i ben.
Pawb yn mwynhau paned gyda Robert cyn troi tuag adre.

## Cangen San Cler

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ym Methlehem Newydd ar Ebrill 8fed. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Eileen. Yn absenoldeb Annalyn cafwyd adroddiad cynhwysfawr a manwl o weithgareddau'r flwyddyn gan Eileen. Diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith a phawb sydd wedi cyfrannu at weithgareddau eleni. Diolch iddi am yr adroddiad. Diolch i Pat, hefyd am adroddiad ariannol. Etholwyd swyddogion fel a ganlyn:

Llywydd - Eileen • Is-lywydd - Iona
Ysgrifenyddion –
Rhaglen – Marian a Jane
Materion rhanbarth a chenedlaethol – Iona
Cofnodion a gohebydd y wasg – Beti-Wyn
Trysorydd - Pat
Is-drysorydd - Lilwen
Dosbarthydd y Wawr – Eileen
Trefnyddion te – Doreen, Eirwen, Janet a Sharon

Yn dilyn y cyfarfod blynyddol cafwyd cyfarfod cyffredin. Cofiwn yn gynnes at Heulwen sy'n dal yn yr ysbyty, dymunwn yn dda i Annalyn a Rhian Williams. Dymunwyd penblwydd hapus i Pat oedd yn dathlu ei phenblwydd ar ddiwrnod y cyfarfod.
Mae CD Cân y Gân wedi eu dosbarthu i Gartrefi Garreg Lwyd a Dol y felin hefyd copi i'r Caffi Cofio ym Methlehem Newydd.
Derbyniwyd cais am lythyr o gefnogaeth i weithio gyda'r gymuned yn San Cler. Mae llythyr wedi ei ddanfon. Soniwyd y dylid canmol Janet am drefnu sesiynau stori ym Methlehem Newydd gyda MGSG – mae rhyw 27 yn mynychu. Cafwyd adborth o Ginio Llywydd y De a phawb wedi mwynhau.

Aed ati wedyn i rannu syniadau am raglen tymor nesaf. Mwynhawyd lluniaeth ysgafn a baratowyd gan Doreen ac Eirwen. Rhoddwyd y wobr raffl gan Doreen ac fe'i henillwyd gan Pat.

## Cangen Hendygwyn

Ar Fawrth 18fed bum yn dathlu mis ein Nawdd Sant drwy fwynhau cawl blasus iawn yng Nghanolfan Hywel Dda. Roedd bron pawb o'r aelodau'n bresennol a Jean Parri Roberts oedd yn llywyddu. Jane Morgan, Swyddog Datblygu Caerfyrddin oedd y wraig wadd a chafwyd araith bwrpasol iawn ganddi.

Ar ôl llenwi eu boliau â chawl a chacennau dosbarthwyd cwis i'r aelodau a chafwyd llawer o sbort a sbri yn ceisio cwblhau diarhebion a theitlau caneuon Cymraeg. Rhannwyd wyau Pasg â'r enillwyr a diolchodd Jean yn gynnes iawn i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y prynhawn.

Ar Ebrill 15fed Ann Morris o Faenclochog oedd ein gwraig wadd ac fe ddaeth hi a'i gŵr 'da'i i helpu gyda'r uwchdaflynydd. Cawsom hanes ei magwraeth yng Nghilfynydd a'i chysylltiadau â Maenclochog. Roedd ganddi gasgliad o hen luniau diddorol iawn o'r amser a fi ac fe gawson ni brynhawn wrth ein bodd yn gwrando ar ei hatgofion. Eilir Thomas oedd llywydd y prynhawn ac fe ddiolchodd yn gynnes i Ann am rannu ei phrofiadau mewn ffordd mor ddiddorol. Diolchodd hefyd i Ann Lewis a Carole Young am wneud y te.

Ar Fai 20fed, byddwn ni'n mynd ar ein gwibdaith flynyddol ac yn ymgynnull yn y maes parcio am 1 o'r gloch.

## Cangen Gronw

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill yn y festri ar y 23ain dan lywyddiaeth Rhiannon Davies.
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Tegwen, Eirwen, a Jane.
Darllenwyd cofnodion mis Mawrth a dyma'r materion a godwyd.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326






Estynnwyd cyfarchion penblwydd i Marion a diolchwyd iddi am ddod â gwlan i'r merched wau blancedi i fabanod sydd mewn uned gofal arbennig.

Soniwyd am yr amser da gafodd yr aelodau wrth ddathlu penblwydd Nansi yn gant oed mewn parti yn Neuadd Llanboidy. Braf oedd gweld Nansi yn edrych mor dda ac yn mwynhau y gwmnïaeth. Diolchwyd i Wenfys am drefnu y basgedaid o flodau a gyflwynwyd i Nansi ar ran Cangen Gronw. Un o binaclau'r dathlu oedd cyflwyno detholiad o'i barddoniaeth i Nansi. Digwyddiad arbennig a diolch i'r rhai fu'n trefnu ac i'r teulu am achlysur i gofio. Darllenwyd llythyr o ddiolch wrth Nansi.

Casglwyd syniadau ar gyfer rhaglen blwyddyn nesaf a gwneud trefniadau ar gyfer ein hymweliad â Bodlon ym mis Mai.

Cyflwynodd Rhiannon y dair wraig wâdd Mari, Sian a Meinir oedd am rannu eu profiadau o nofio gwyllt. Mae nofio gwyllt wedi dod yn boblogaidd iawn ac mae digon o dystoliaethau o ba mor fendithiol yw i'r meddwl ac i'r corff. Soniwyd sut gwnaethant ddechrau'r her, fel grŵp o chwech ffrind a sut penderfynwyd ar yr enw "Dreigiau'r Don". Y bwriad yw mynd i nofio yn wythnosol drwy'r flwyddyn ac mae yn syndod mor wahanol gall y môr fod o ran tymheredd ac ansawdd – yn llyfn ar adegau ac yn donau gwyllt bryd arall!


Dywedwyd bod eu profiadau yn rhoi cyfle i fyw yn y foment ac yn rhyddhau tensiwn yn y meddwl a'r corff. Mae'r môr fel petai yn golchi ein pryderon i ffwrdd ac yn ogystal â hyn mae'n hwyl bod gyda ffrindie ac yn cryfhau cyfeillgarwch. Mae hefyd yn rhoi perspectif arall ar fywyd. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig i baratoi yn dda a chadw yn gynnes ar ôl nofio. Cafwyd tipyn o sbri a syndod a sawl syrpreis pan ddatgelwyd cynnwys y bag nofio. I orffen rhannwyd fidio a darllenodd Mari benillion o'i gwaith.

Mor lwcus ydym ffrindiau,
Wynebwn yr hyn a ddaw,
Y cwmni gorau yn y byd,
Gyda'n gilydd law yn llaw.

Wedyn daeth antur newydd,
I'r môr fe awn am dip,
I Coppet Hall neu Amroth
Mewn dry robes, O! mor slic.

Ar ddiwedd cyfnod anodd,
Yn hanes y chwech ffrind,
Daeth golau ar y gorwel,
Felly rhaid oedd cadw fynd.

Diolchodd Rhiannon yn ddidwyll i'r merched a mawr fu'r sgwrsio dros baned o de.
Enillodd Susan y raffl a paratowyd te gan Wenfys, Susan a Marion. Cafwyd syrpreis hyfryd gan i Delyth ddod â chacennau roedd wedi eu coginio a diochwyd iddi am ein sbwylio. Blasus iawn.










R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir

Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
**Dai James - Steven Owens**
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

# Colofn Llên *gan Marian Thomas*

Mae gwyliau yn gyfle i wneud fawr o ddim heblaw darllen ac ymlacio. Es â phedair cyfrol gyda mi i Tenerife ddiwedd fis Ebrill– dwy Saesneg a dwy Gymraeg ac wedi darllen y rhai Saesneg mae modd eu cyfnewid am rai eraill yn llyfrgell y gwesty a dychwelyd gyda'r rheini! Roedd y ddwy gyfrol Gymraeg â'u cefndir yng Nghwm Tawe ond dyna'r unig debygrwydd rhyngddynt.

Neil Rosser yw awdur **Wythnos Ryfedd Gwilym Puw** ac er mai dychanu cyfundrefn arolygu ysgolion y mae, dewisodd yr arolygydd ysgolion, Gwilym, fel ei brif gymeriad ac mae hwnnw druan yn cael *midleiff creisis* go iawn. Cymeriad cwbl gartwnaidd yw'r dirprwy iddo, Maldwyn sy'n dilyn y drefn arolygu i'r llythyren eitha'. Dyfarniad Gwilym ar y diwedd yw bod Ysgol Bro Copor 'yn ysgol ardderchog, beth bynnag fydd y dyfarniad swyddogol,' a hynny'n bennaf oherwydd iddo wirioni ar dafodiaith gyfoethog y disgyblion dan ddylanwad Tad-cu un ohonynt. Bydd athrawon yn medru uniaethu â phrofiad y pennaeth o dderbyn dyfarniad 'boddhaol' er bod y dysgu a'r addysgu yn dda a mwynhau'r sbort a wneir o jargon y byd addysg. Chwerthinais yn uchel o dro i dro wrth i Gwilym ymbalfalu gyda chymhlethdodau bywyd – y gormodedd o ddewis wrth archebu coffi ac ati. Mae'r stori yn un gwbl ddychanol ac yn ddathliad o iaith Cwm Tawe. Mae gwraig Gwilym yn gwirfoddoli yng nghegin yr eglwys – a gwyddom pa mor weithgar yw'r awdur yng nghegin yr Hedyn, Caerfyrddin.

Roeddwn wedi disgwyl chwerthin mwy ond efallai am i mi fod ar ddwy ochr y ffens ym myd addysg na chefais bwl yn aml! Awgrymodd cadeirydd ein clwb darllen y dylwn ddarllen ei gyfrol o atgofion ar sail ei ganeuon sef **Ochr Treforys o'r Dre** os am gwd laff! A dyna a wnes ar ôl dod adre- a gwir y gair. Dyma deyrnged arbennig i'w fro enedigol, ei fagwraeth Gymraeg a chymeriadau hynod ei deulu a thafodiaith bert y Cwm wedi'i chofnodi mor huawdl. Gwych! Cyfrol i godi calon – er ysywaeth yn ddarlun o oes a fu.

Rwy'n cofio cael fy nghyfareddu gan un o destunau lefel O Saesneg flynyddoedd maith yn ôl am hanes Scott a'i daith drychinebus i Begwn y De yn 1912. Roedd nofel ddiweddara Jon Gower wedi apelio ataf felly, sef **I'w Ddiwedd Oer.** Cafwyd Ysgol Bro Copor yn y nofel gyntaf ac yn yr ail gyfeiriad at *Copperopolis* pan oedd Abertawe yn brifddinas gopr y byd. Mae tafodiaith bert yr ardal yma hefyd yn y penodau am ardal Rhosili lle magwyd Edgar Evans a fu'n gydymaith i Scott ar ei anturiaethau. Ond dyna'r unig debygrwydd rhwng y ddau lyfr. Does dim doniolwch yma ond mae'r llenor medrus hwn yn cyfleu naws a bywyd natur Penrhyn Gwyr a chaledi enbyd bywyd llongwr wrth fentro i bellafoedd daear. Dywedir mai 'cnewyllyn o wirionedd' sydd yn y nofel fywgraffiadol hon ond ymddengys i mi i'r awdur ymchwilio'n fanwl i'r hanes. Er bod rhagair cryno ar y dechrau byddwn wedi hoffi gwybod pa agweddau sy'n wir a pha rai sy'n ffrwyth ei ddychymyg, ond ymddengys iddo gyfeirio at ddyddiaduron a llythyrau Scott. Mae'r gyfeillgarwch rhwng Edgar a Scott yn annisgwyl ond dibynnai Scott ar gryfder y 'cawr o Gymro.' Mae'r hanes o frwydro yn erbyn yr elfennau, yn ddynion ac yn greaduriaid yn enbyd a llwyddir i gyfleu hynny trwy'r arddull gywrain ond profodd hynny'n rhy undonog o ddirdynnol i mi erbyn y diwedd. Collwyd y ras i Begwn y De yn erbyn Amundsen o Norwy a chollodd Scott a'i gyfeillion eu bywydau.

Wrth i mi lunio'r uchod cyhoeddwyd rhestr llyfr y flwyddyn eleni a dwy nofel bues yn eu canmol o'r blaen wedi dod i'r brig, sef **Nelan a Bo** a **V+Fo**. Nid wyf wedi darllen y drydedd yng nghategori'r nofel, sef **Madws** gan Sioned Wyn Roberts – a hynny am nad yw nofelau ffantasi at fy nant i mae arna i ofn.


COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG


MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 11B, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444
e-bost: sales@crymychbuildingsupplies.co.uk

# CANOLFAN HYWEL DDA - Coffi a Diwylliant

Gall ymwelwyr â Chanolfan a Gerddi Hywel Dda yn Hendygwyn fwynhau lluniaeth unwaith eto wrth i'r Siop Goffi ail agor o dan reolaeth newydd yn ddiweddar.

Mae Dylan Davies, rheolwr newydd y caffi, yn gweini amrywiaeth o fwydydd i gwsmeriaid sy'n dymuno cael byrbryd canol bore, cinio neu bryn-hawn. Ynghyd ag amrywiaeth eang o goffi a the, cynigir brechdanau, brechdanau crasu, rholiau cig moch a chiniawiau ysgafn ar y fwydlen.

Yn ogystal â'r danteithion blasus, mae ymweliad â Siop Goffi Hywel Dda yn agor y drws i ran bwysig o hanes Cymru drwy'r gerddi bach hyfryd sy'n amgylchynu'r Ganolfan. Mae pob un o'r gerddi yn cynnwys coeden benodol ac yn darlunio cyfreithiau arloesol a theg Hywel Dda, y tywysog Cymreig cyntaf i reoli bron Gymru gyfan. Mae'r Ganolfan, a leolir ar safle hen farchnad anifeiliad Hendygwyn yn cynnwys placiau celfydd a ddarlunir diwrnodau marchnad slawer dydd.

Mae nifer o sefydliadau megis Merched y Wawr, Sefydliad y Merched ac Ymddiriedaeth Elusennol Arfordir Penfro, yn dewis cynnal eu cyfarfodydd yn y Ganolfan. Gellid hefyd drefnu teithiau tywys ar gyfer unigolion a grwpiau sy'n awyddus i ddysgu am gyfreithiau arloesol Hywel Dda.

Lleolir Canolfan a Gerddi Hywel Dda yng nghanol Hendygwyn ac mae arwyddion clir o'r A40.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Siop Goffi Hywel Dda – Dylan Davies – 07572 935728

Teithiau tywys Hywel Dda – ebost@hywel-dda.co.uk



Dylan Davies, rheolwr newydd y caffi



Sefydliad y Merched, Hendygwyn


**FFERYLLFA EVANS**
MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE
San Clêr
01994 230444
01994 230456
eich canolfan gofal iechyd lleol
*Cyngor rhad ar gael gan ein staff profiadol*

**Celia Vlismas Optegydd**
Castell Newydd Emlyn
01239 711888
♦
Arberth
01834 861373

www,vlismas-opticians.co.uk
Rydym yn croesawu cleifion newydd - boed preifat neu o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Edrychwn ymlaen i'ch gweld

**Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf**
Robert W. R. Morgan
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

Tomos Rees
**NEW HOUSE GARAGE**
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

**DAIL PREN**
**Crefftwaith pren, arwyddion a gwaith ysgythru laser**
Tomos Lewis
dailpren.co.uk | dailpren@hotmail.com

# MEIDRIM

**Henoed**

Croesawodd Glyn James ein gŵr gwadd sef Brian Castell Howell a ddaeth i siarad â ni am ei yrfa.

Dechreuodd yn Fferm Castell Howell yn Trevaughan yn godro ac yna magu ffowls. Erbyn hyn mae ganddo 200 o loriau ac amryw o ganolfannau dros Gymru gyfan. Mae'n cyflogi 900 o staff ac yn glôd mawr i'r diwydiant Cymraeg. Roedd yn ddiddorol i glywed am ei lwyddiant.

Diolchodd Meirion Morris iddo am ei sgwrs ddifyr, ac hefyd am ddod â bag yr un o bethau i ni fwyta.

## *Dathlu mawr*



Gan fod Danny a Lynda Newton yn dathlu 70 mlynedd o fywyd priodasol, Danny yn 95 oed a Lynda yn 90 oed ym mis Mai dyma nhw yn derbyn anrhegion pwrpasol oddi wrth clwb yr Henoed Meidrim. Llongyfarchiadau iddynt.

Mis nesa ar Fehefin 3ydd, bydd Elen Bowen yn dod atom i ddangos sut i wneud gemwaith.

Wrth y te - Lilian Rees Jean Howell. Shirley Bowen. Meirion Morris a Noel James.

Yn rhoi raffl. Brian Davies. Emrys Morgan. Glenda Badhams a Hiefena James.

# RHYDWILYM

Diolch yn fawr i'r Parch. Judith Morris am weini Cymun y Pasg.

Mehefin
1af: 2.00 - Shan Jones
12fed: 10.30 - Brian Llewelyn a'r teulu
29ain: 10.30 - Parch Peter Thomas

Rydym yn cydymdeimlo gyda phawb sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Hefyd pob dymuniad da i'r rhai sydd yn anhwylus ar hyn o bryd.

Rydym yn falch i glywed bod Eluned Jones wedi cyrraedd adre o Batagonia i Gymru fach yn ddiogel. Croeso nôl.

Mae'r gwaith ar yr eiddo wedi dod i ben. Tipyn bach o dacluso sydd ar ôl yn awr. Popeth yn edrych yn llawer gwell. Diolch i Ifan Davies am ei waith di ffws a diolch yn fawr hefyd i Ian Eynon am yr holl drefnu.

# LOGIN

**Calfaria**

Oedfaon

Diolch o galon i'r Parchedigion Judith Morris a Catrin Thomas am eu gwasanaeth yn ddiweddar, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf :-
Mehefin
1af: Shan Jones - Cymun 10.30
15fed: Gareth Ioan - Cwrdd 2.00
29ain :Peter Thomas - Cwrdd 2.00
Gorffennaf
13eg: Tudur Dylan Jones - Cymun 10.30
27ain: Hefin Wyn - Cwrdd 2.00

**Cymorth Cristnogol**

Trosglwyddwyd swm o £150 i elusen Cymorth Cristnogol yn ddiweddar, er mwyn cynorthwyo hwynt i barhau gyda'r gwaith gwych maent yn ei gyflawni ar draws y byd.

# PWLL TRAP

Trist clywed am farwolaeth David Jones, Clos Nathaniel. Roedd yn weithgar gyda'r Lleng Brydeinig yn San Cler. Cydymdeimlwn gyda'i wraig Irene ei ferch, Sarah, a'i gŵr Tim a'r teulu oll.

Dymunwn benblwydd hapus i Eirlys James, Clos Nathaniel, a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar Ebrill 27ain.

**CJ Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
*Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.*
*Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.*
Ffôn: 01994 419230

*G WILLIAMS*
*a'i FEIBION*
Monumental Masons
*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

**Bethlehem Newydd**

Cynhaliwyd oedfa gan yr aelodau ar fore Sul y Pasg. Cafwyd darlleniadau pwrpasol a myfyrdod diddorol gan Rhodri am her y croeshoeliad a'r atgyfodiad. Diolch i'r rhai a luniodd yr oedfa, i bawb a gymerodd ran ac i Hefina a fu'n cyfeilio.

Nigel Davies o Langynin oedd â gofal yr oedfa ar Ebrill 27ain. Seiliwyd y gwasanaeth ar hanes Dafydd, Nabal ac Abigail o Lyfr Samuel, hanes oedd yn anghyfarwydd i lawer. Cafwyd oedfa fendithiol iawn a dysgwyd llawer! Braf oedd cael cwmni tad Nigel, sef Granville Davies o Langynin yn yr oedfa. Diolch, hefyd, i Hefina am gyfeilio.

**Tŷ Croeso**



Cyflwynwyd siec o £400 i Gaffi Cofio Talacharn ar gyfer cefnogi rhai sydd yn byw gyda dementia. Maen nhw'n cyfarfod yn y Carpenters Broadway unwaith y mis.



Mae Iona Cartwright sydd yn ddawnus mewn gwaith llaw wedi creu y seren gywrain hon a'i chyflwyno i'r capel. Diolch o galon iddi am y rhodd arbennig hon.




## LLANGYNIN

**Gwellhad buan**

Mae nifer o drigolion Llangynin wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan i Ezra John, Uplands, Roy Reynolds, Tymore, a Mark White, Garnwen.

**Cymdeithas Gymraeg Llangynin**

Daeth tymor Cymdeithas Gymraeg Llangynin i ben ddydd Sadwrn, Ebrill 14eg, gydag ymweliad â Chastell Howell yn Cross Hands. Diolch o galon am y croeso twymgalon a'r cyflwyniad a'r daith ddiddorol o amgylch y werŵs.





**RHYDWYN DAVIES**
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos,
Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
**SIOP Y PENTAN**
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

**Fferyllfa Clunderwen**
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

Nôl ar y bws mini wedyn, gydag Elfed yn gyrru, i gael mwynhau swper blasus yng ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin..

Yno ymunodd mwy o aelodau'r Gymdeithas Gymraeg â'r criw, yn ogystal â Brian Jones, sylfaenydd cwmni Castell Howell, a'r siaradwr gwâdd ar gyfer y noson, sef y Cynghorydd Sir Peter Hughes Griffiths, un sydd wedi byw bywyd prysur iawn ym myd addysg, gwleidyddiaeth ac fel arweinydd nosweithiau llawen ledled Cymru. Mwynhaodd y gynulleidfa hanesion difyr a doniol am bedair o wragedd sydd wedi chwarae rhan bwysig iawn yn ei fywyd.
Diwrnod yn sicr i'r brenin. Diolch i Elfed am drefnu.



**Bingo yn y Bryn**
Nos Iau, Ebrill 17eg, cynhaliwyd Noson Bingo yn y Bryn dan nawdd Pwyllgor Rheoli'r Neuadd.
Bu'n noson lwyddiannus dros ben,a braf oedd cael cwmni nifer o gyfeillion o bentrefi cyfagos yn ogystal â thrigolion Llangynin a'r cylch. Glyn Rees o Sanclêr oedd yn galw, ac yn ystod yr egwyl bu'r gwragedd yn gweini te a choffi a bisgedi, a chafwyd cyfle i dynnu'r raffl. Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth gan Caroline Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli. Gwnaethpwyd elw o £245.56 tuag at gynnal a chadw'r Neuadd.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn gydymdeimlad â Sian, Anthony a Rocco Topiazo, Trem y Cwm, ar farwolaeth tad Sian yn ddiweddar.

....hefyd â Gordon a Dionne Davies a'r teulu, Maesawelon, ar farwolaeth mam Gordon, sef Lynette James (gynt o Maesawelon, Llangynin) o Hendygwyn-ar-Daf. Cofiwn am y ddau deulu yn eu colled a'u hiraeth.

**Clwb 60**
Ar y 10fed o Ebrill cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill o'r gymdeithas fel arfer yn Neuadd Capel y Bryn. Croesawodd Les y cadeirydd y siaradwr gwadd sef Eifion Nicholas neu Ted Nicholas fel yr adwaenir ef. Bachgen lleol, yn enedigol o Henllan Amgoed, yn briod, ac yn dad i ddwy o ferched, ac yn awr yn byw nepell o Ddinbych y Pysgod, wedi ymddeol o'r Heddlu.

Yn gyn blismon/ditectif mae e wedi gweithio'n lleol o Lanelli a Dinbych-y-Pysgod. Cawsom atgofion disgrifiadol o'i fywyd yn yr heddlu oedd mor ddiddorol. Clywsom straeon lliwgar iawn yn amlinellu nifer o heriau sy'n wynebu'r llu yn ogystal â'i brofiad dirdynnol yn achos Operation Julie yng ngogledd Ceredigion.

Mwynhawyd y prynhawn yn fawr iawn a diolchwyd iddo am orig o agoriad llygad a phur fwynhad. Roedd y te yng ngofal Wenfys a Susan a Susan hefyd enillodd y raffl misol.

---

Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddoedd gynhaliwyd ar brynhawn Iau yr 8ed o Fai. Roedd llai nag arfer yn y cyfarfod misol hwn ond er hynny daethpwyd i ben â threfnu beth oedd raid. Ail etholwyd yr holl swyddogion oedd yn barod i gydymffurfio a derbyn eu dyletswyddau a diolchwyd iddynt am eu parodrwydd. I ddilyn o dan ofal Elfed Lewis, chwaraewyd dwy gêm o Bingo.

Mary a Rose oedd yng ngofal y te a Llinos enillodd y Raffl. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin y 12ed pan fydd Phillip Morgan y cyn filfeddyg o'r pentref yn westai gwadd. Mae croeso twymgalon i unrhyw un ymuno â ni, byddwn yn falch iawn i'ch gweld.

---

# SAN CLER

Penblwydd Hapus hwyr i Marina Thomas, Maesydderwen, a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ym mis Ebrill.

Penblwydd Hapus iawn hefyd i Olive Bowen o Pethau Olyv sydd yn dathlu penblwydd arbennig ar Fai 18fed. Mwynha'r dathlu Olive!

Trist clywed am farwolaeth Ann Phillips o Heol Dinbych y Pysgod. Yn wreiddiol o Fancyfelin, roedd wedi ymgartrefu yn San Cler ers sawl blwyddyn. Cydymdeimlwn â'i gŵr Winford, ei mab Andrew a'r teulu oll ar eu colled.

**Gorsafoedd y Groes**
Cafwyd gwasanaeth hyfryd yn Y Gât ar Nos Lun Ebrill 14eg. Roedd Deacon Jon wedi paratoi y gwasanaeth









a chafwyd darlleniadau gan aelodau gwahanol gapeli ac eglwysi'r dref. Yn cyd-fynd â'r darlleniadau roedd lluniau hynod o drawiadol o ddioddefaint Iesu a beintiwyd gan Deacon Jon. Yn dilyn y gwasanaeth darparwyd lluniaeth ysgafn. Diolch i Deacon Jon am baratoi'r digwyddiad cyd-enwadol hwn, i bawb a gymerodd ran ac i bawb fu'n cynorthwyo gyda'r lluniaeth.

**Eglwys y Santes Fair Fagdalen**
I ddathlu'r Pasg cynhaliwyd Gŵyl Flodau yn yr Eglwys. Darluniwyd gwahanol rannau o hanes y Pasg yn gywrain iawn gyda Lilwen a'i thîm a bu'r eglwys ar agor yn ddyddiol drwy'r wythnos i ddarparu cyfle i bobl ymweld. Braf oedd gweld cyfraniadau'r plant gyda'u gerddi Pasg a hetiau. Dyma flas o'r arddangosfa.










# BLAENWAUN

Moriah
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth John a Barbara Evans, Maesycymmer. Y ddau wedi dioddef afiechyd am amser hir ac mewn cartref gofal. Barbara, wrth gwrs, oedd un o ferched Bryngronw, a phlentyn Glan a Maisie Harries. Rydym fel eglwys ac ardal yn cydymdeimlo yn fawr â'r plant a'r teulu ehanghach.

Diolch i Nigel Davies a'r Parchedig Gareth Ioan am eu gwasanaeth. Cafwyd oedfa Pasg undebol ym Moriah yng nghwmni aelodau Bryn Iwan a Blaenycoed o dan arweiniad ein gweinidog. Hyfryd oedd cymdeithasu ar ôl yr oedfa dros baned a chacen.
Trefn yr oedfaon:
Mehefin-
1af - Cymun 1.30 Parchedig Gareth Ioan.
22ain - 2 o'r gloch Arwel Evans.

Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
GWASANAETH CADW CYFRIFON
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
*Yn drwyddedig gan Association of Accounting Technicians*

Delwedd
07814 543634
***Salon Harddwch a Chyflenwol***
Crymych
Triniaeth o safon mewn awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

**Cydymdeimlo**
Newyddion trist i'r ardal oedd clywed am farwolaeth Peter Anthony, Waunfawr. Estynnwn gydymdeimlad â Mary a'r teulu.

Cafwyd noson hyfryd yn y Lamb, Blaenwaun ar nos Fawrth 29ain Ebrill yng nghwmni'r Prifardd Ifor ap Glyn, (Bardd Cenedlaethol Cymru 2016-2022) wrth iddo gerdded o Drefynwy i Dŷ Ddewi. Ymunodd Elinor Wyn Reynolds gydag ef a mwynhawyd y farddoniaeth a'r canu yn fawr iawn.

Yn ystod y noson darllenodd Elinor gerdd o'i gwaith ar 'Swyddfa'r Post Blaenwaun'. Roedd hyn yn bersonol iawn i Tegwen James sef merch y diweddar Tom a Beatrice Griffiths a fu'n cadw'r Swyddfa Bost (sydd nawr wedi ei lleoli yn Sain Ffagan) am flynyddoedd lawer.




Y Prifardd Ifor ap Glyn gydag Elinor Wyn Reynolds a gyda Tegwen James

# LLANWINIO

## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL Y GARREG LAS 2026

### Pwyllgor Apêl Llanwinio, Cwmbach, Blaenwaun a Cwmfelin Mynach

Cynhaliwyd ail gyfarfod y pwyllgor nos Fawrth 6ed o Fai 2025 yn Neuadd Llanwinio. Roedd 10 yn bresennol yn cynrychioli'r ardaloedd ac estynnwyd croeso iddynt gan y cadeirydd, Geraint Evans. Gwnaeth Geraint hefyd longyfarch Nansi Evans ar ei phenblwydd yn 100 oed a diolch iddi am roi elw o werthiant ei llyfr (Casgliad o gerddi) i'r apêl.
Penderfynwyd cynnal Bingo Nadolig yn Neuadd Llanwinio ar nos Wener, Tachwedd 28ain am 7.30, gan ofyn i unigolion a busnesau lleol i noddi'r gemau.
Hefyd, penderfynwyd cynnal noson o 'Gawl a Chân' yn y neuadd ar nos Sadwrn, 28ain o Chwefror 2026. Phil Higginson fydd yn gyfrifol am eitemau cerddorol. Mae Ceri Pynn a Delyth Bebb yn garedig wedi gwirfoddoli i fod yn gyfrifol am y cawl. Pris tocyn fydd £10 a bydd raffl hefyd ar y noson.

Teimlwyd fod angen gweithgaredd ar blant yr ardal a chynigiodd Jiwli Higginson gysylltu â Debbie Jackson, sy'n brofiadol yn y maes yma gan obeithio cynnal y weithgaredd cyn yr haf.

Yn ogystal, mae croeso i unrhyw un sy'n dymuno, gyfrannu at yr ymgyrch neu gynnal rhyw weithgaredd arall. Cysylltwch â'r trysorydd Meirwen Evans ar 07805 581376.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Mehefin 3ydd am 7.30.

# HENLLANFALLTEG

*Priodas Dda*



Dymuniadau gorau i Megan Lawton a Pete Evans ar eu priodas yng Nghaerdydd ar y 25ain o Ebrill. Mae Megan yn wyres i Ann Mathias, Penback.

the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
**01994 240705 / 240055**
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol
15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
gerald@geraldblainassociates.co.uk
geraldblainassociates.com
@GBAssociates1

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR
Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

# BANCYFELIN

**Cerdded i ben Bryn Mryddin**



Er gwaetha'r tywydd garw, mentrodd criw o aelodau o Gapeli Cana a Bancyfelin, ynghyd â gweddill yr Ofalaeth i ben Bryn Myrddin ar bnawn Gwener y Groglith gan gario'r groes. Cafwyd oedfa fer ar ben y bryn a phaned i ddilyn yn Allt Fyrddin. Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth.

**Gŵyl Flodau**





Cynhaliwyd Gŵyl Flodau arbennig yng Nghapel Bancyfelin ar bnawn Sadwrn y Pasg. Dan arweiniaid medrus a chreadigol Nia Ward, cafodd yr ymwelwyr eu tywys drwy Stori'r Pasg Drwy Flodau. Roedd y capel yn edrych yn eithriadol o brydferth â'r llu o ymwelwyr wedi mwynhau'r arddangosfa a chyfle i gymdeithasu dros baned. Diolch i Nia a phawb a fu wrth y gwaith.



Cyflwynwyd blodau i Mrs Vera Thomas yn yr oedfa bnawn Sul y Pasg i ddiolch iddi am ei gwaith fel Ysgrifennydd Ariannol Capel Bancyfelin ers nifer fawr o flynyddoedd.

Diolch Vera am eich gwaith trylwyr ac ymddeoliad hapus!



Daeth torf ynghyd i'r pentref bnawn Sul Y Pasg ar gyfer ein gorymdaith flynyddol. Wedi cario'r groes drwy'r pentref, cynhaliwyd oedfa yn y capel dan arweiniad Y Parchg Beti Wyn James ac eraill, a chafwyd cyfle i fwynhau paned a byns y grog wedi'r oedfa.

**Cymdeithasu**



Mwynhaoedd aelodau eglwysi Cana a Bancyfelin bryd o fwyd hyfryd yn nhafarn y Fox & Hounds yn ddiweddar. Roedd yn braf iawn cael cyfle i gymdeithasu. Diolch i bawb a ddaeth ac i Margaret Evans am drefnu.

**Gibeon**

Ar Sul y Blodau, Ebrill 13eg, cafwyd oedfa ddiddorol a bendithiol o dan ofal Mr Dafydd Evans. Diolch iddo am ei neges ac i Ann am gyfeilio. Yn dilyn yr oedfa cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned.

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf
"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"
PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH
01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

JTL PLYMIWR
Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb
• Gwasanaeth plymio llawn
• Gosodwyr systemau dwr twym heb fent
• Gwasanaeth teilio llawn
• Dyfynbris am ddim
• 25 mlynedd o brofiad
07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk

# CWMFELIN MYNACH

Cynhaliwyd oedfa gymun ar Sul, Mai 4ydd dan ofal Y Parch. Alwyn Daniels ac oedfa ar 11eg dan ofal y Parch. Huw George. Diolch iddynt am eu gwasanaeth.

**Trefn oedfaon mis Mehefin**

1af: Oedfa gymun dan ofal Parch. Eirian Wyn Lewis -10.30

8fed: Oedfa dan ofal y Parch. Huw George - 10.30

Mae Roy Reynolds wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar a braf oedd gweld ei fod wedi gwella'n ddigon da i ddod i'r oedfa gymun.

**Diolch**

Dymuna Beryl Williams ddiolch i bawb am y dymuniadau da ar achlysur ei phenblwydd arbennig yn ddiweddar.

## *Penblwydd hapus yn 100 oed*

Ar brynhawn Sadwrn, Ebrill 26ain, daeth teulu a ffrindiau o bell ac agos i Neuadd y Farchnad Llanboidy i ddathlu penblwydd Nansi Evans, Penybont yn 100 oed. Croesawyd pawb yn gynnes gan Wyn a Huw, dau o'r meibion ac yna bu pawb yn mwynhau'r wledd a baratowyd gan Christine Richards.



Uchafbwynt y prynhawn oedd i Wyn gyflwyno copi cyntaf o lyfryn yn cynnwys casgliad o'i cherddi i'w fam. Syniad Rosemond Halls oedd hyn a gyda chymorth Geraint Roberts o Ysgol Farddol Caerfyrddin a Buddug Nelson yn teipio, daeth y gyfrol yn barod ar gyfer y dathlu. Treuliwyd gweddill y prynhawn yn cymdeithasu a hel atgofion.

*Buddug a Rosemond gyda Nansi yn dangos copi o'r llyfryn.*

## I Nansi ar gyrraedd y Cant

Diau bu neb mwy diwyd – yn ei bro,
Ni bu'r un mor hyfryd;
Llawn gwaith, llawn afiaith hefyd,
Yn wyrth byw a'n werth y byd.

Diysgog mewn cymdogaeth; - i'w thylwyth
A'i theulu'n gynhaliaeth;
Un ddawnus mewn barddoniaeth
A'i llais mwyn yn lles a maeth.

Mae'n haeddu dathlu ei dydd, - a'i nod oedd
Hyd ei hoes yn ufudd
Fu aros beunos beunydd
Yn gyson ffyddlon i'w ffydd.

Enaid Cwmfelin Mynach - yw Nansi
Heb nonsens na grwgnach;
Ni fuodd dy ryfeddach
A da yw dy fywyd iach.

*Y Parchg Aled Gwyn*

## Nansi yn 100 oed

Nansi annwyl, dathlu'r ganfed
Carreg filltir sydd mor fawr,
Edrych nôl ac ymfalchio
Yw'ch anrhydedd chi yn awr.

Gwraig ymroddgar fu i Cyril,
Iddo yntau fuoch driw.
Ac yn goron fe'ch bendithiwyd
Gyda Iori, Wyn a Huw.

Dibenadwy o ran natur,
Yn y byd yn seren glir,
Gwneud eich marc ymhob un cornel
O gymdeithas dros y tir.

Ffyddlon fuoch i'r holl deulu
Cymaint ydych wedi rhoi.
Mae eich gwerthoedd yn serennu
Drwy'r holl fyd sy'n dal i droi.

Bydded i chi ddal i droedio,
Diolch am elwa o'ch bywyd chi,
Bendith Duw fo'n dal i'ch cynnal
Diolch am berl, ein Nansi ni.

*Susan Davies*

Crymych Arms
Croeso i'r Crymych Arms
Bwyd rhagorol a chroeso cynnes
01239 831 435
crymych.arms@gmail.com

ORW LTD
TRADING AS
DORIAN PHILLIPS
Owain: 07879 495653
Owain @dorianphillipsbuilders.co.uk

ARWAIN
CYNLLUNIO A THREFNU ACHLYSURON ARBENNIG
Penwythnos Stag / Parti plu
Teithiau Clwb Chwaraeon / Ysgol
Penwythnos llawn gweithgareddau
Nosweithiau codi arian....a mwy
07891 922210
rhodri@eicharwain.co.uk
www.eicharwain.co.uk

Mae ychydig gopiau o'r llyfryn ar gael am £7 gyda'r elw yn mynd at Eisteddfod y Garreg Las 2026. Cysylltwch â Wyn Evans.

Diolch
Dymuna Nansi Evans ddiolch yn fawr i bawb yn ystod dathlu ei phenblwydd yn 100 oed. Diolch am y cardiau, y blodau a'r cyfraniadau ariannol at elusen Ymchwil Cancr Cymru. Derbyniwyd cyfanswm o £1630.
Diolch i deulu'r Felin am baratoi ac addurno'r neuadd; i Iori, Wyn a Huw am eu rhodd o barti; i Buddug Thomas am y gacen hardd; i Huw am baratoi albwm o luniau yn dynodi fy mywyd; i Rosemond am drefnu llyfryn o farddoniaeth (heb yn wybod i mi!) ac i'r teulu a phawb a ddaeth o bell ac agos i ddathlu ar y dydd. Diolch hefyd i Christine am y wledd ac i'r merched a fu'n gweini'r bwyd - ffrindiau annwyl i gyd! Bu'n ddiwrnod arbennig a rwy'n gwerthfawrogi'r cyfan.

# HENDYGWYN AR DAF

**Tabernacl**

Y Pasg yw un o amserau prysuraf y flwyddyn ym mywyd y capel ac felly roedd hi eleni eto. Cafwyd oedfa Gwener y Groglith Unedig yn y Tabernacl gydag aelodau'r tri chapel yn cymeryd rhan cyn y cynhaliwyd oedfa gymun ar Sul y Pasg.



Oedfa Unedig Gwener y Groglith (o'r chwith i'r dde) Idwal Jones, Tudor Eynon, Rhian Rees, Cerys Jenkins, Yvonne Makepiece a Guto Llywelyn.

Mae'r Clwb Hwyl yn parhau i gael ei gynnal bob prynhawn Gwener a nifer dda o blant yn bresennol bob wythnos.



**Genedigaeth**

Mae un o aelodau'r capel sef Sioned Jacob a'i gŵr Tom wedi bod yn dathlu genedigaeth eu hail blentyn sef Harri, brawd bach i Elis. Pob dymuniad da i'r teulu annwyl wrth pawb yn y capel.

Mae nifer wedi bod yn dathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar.



Neil Jenkins yn 60 oed



Alys Jones yn 30 oed



Elizabeth White yn 80 oed

*Llongyfarchiadau mawr i'r tri ohonynt oddi wrth pawb yn y Tabernacl.*

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau
Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon clinigol
ar gyfer poenau ac anafiadau cyffredinol sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith

## Cylch Meithrin Hywel Dda



Rydym wedi ffarwelio â thri o blant sydd wedi gadael y Cylch Meithrin i ddechrau eu taith yn yr ysgol fawr ar ôl y Pasg. Dymunwn pob lwc i Evie, Edith a Gweni - mwynhewch!

**Clwb 100:**
Diolch enfawr i bawb sydd wedi cefnogi Clwb 100 Cylch Meithrin Hywel Dda eleni. Mae hwn wedi helpu i godi arian hanfodol i'r elusen. Wrth brynu rhif, rydych yn galluogi'r Cylch i gadw ei ddrysau ar agor, talu staff, prynu offer a chynnig tripiau addysgiadol i'r plant.

Hoffwn nawr eich gwahodd i adnewyddu eich aelodaeth os y dymunwch. Hefyd, mae cyfle i aelodau newydd brynu rhifau ac ymuno â'r Clwb 100.

Mae un rhif yn £1 y mis - £12 y flwyddyn. Rydym yn tynnu'r raffl bob mis, gyda gwobrau yn mynd i'r 1af, 2il a 3ydd.

Aelodau: os hoffech aros yn aelod, plîs talwch mewn i gyfrif banc Clwb 100 (£12 Pob rhif), gan ddefnyddio eich enw fel cyfeirnod. Danfonwch ebost i ni hefyd i ddweud eich bod chi wedi talu: cylchhyweldda@icloud.com.

Aelodau newydd: danfonwch ebost i ni er mwyn cael ffurflen gais ac wedyn gwneud y taliad mewn i'r cyfrif banc isod.

Enw cyfrif: Clwb Cylch Meithrin
Côd didoli: 56-00-42
Rhif cyfrif: 37227696

Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth barhaus.
Buddug Davies
(Ysgrifenyddes)

## Hoelion Wyth - Cangen Hendygwyn

Ar y 1af o Fai, i orffen y tymor eleni, aeth yr aelodau ar daith ddirgel a drefnwyd, fel arfer, gan Mel Jenkins, ein swyddog adloniant. Teithio ar draws yr M4 a chyrraedd Amgueddfa Werin Sain Ffagan.

Dyma ddisgrifiad ar wefan yr amgueddfa: "Mae Sain Ffagan yn annwyl i bobl Cymru – dyma atyniad treftadaeth mwyaf poblogaedd y wlad. Amgueddfa'r bobl yw hi, yn adrodd hanes Cymru trwy fywydau bob dydd ei thrigolion".

Yr oedd yn ddiwrnod heulog braf a chafwyd prynhawn hyfryd yn cerdded o amgylch yn ymweld â'r hen adeiladau oedd yn perthyn i'r oesoedd cynt yng Nghymru. Rhyfeddwyd at y grefft o symud adeiladau o'u man gwreiddiol i'w sefydliadau newydd yn yr amgueddfa. Un adeilad roedd yn rhaid ei weld oedd hen Swyddfa Bost, Blaenwaun gan fod y rhan fwyaf yn ei chofio ar agor yn y pentref.

Troi tuag adref wedyn a chael pryd o fwyd blasus yn Llangennech ar y ffordd. Yn absenoldeb Claude James, ein cadeirydd, diolchwyd i Mel Jenkins am drefniadau'r diwrnod gan Ithel Parri-Roberts.

Edrychwn ymlaen i gwrdd eto ym mis Medi pan fydd croeso cynnes i aelodau newydd i ymuno â'r gangen gan gofio mae yng Ngwesty'r Taf yn Hendygwyn bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal o hyn ymlaen.

*Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'n cadeirydd, Claude James ar farwolaeth ei briod Lynette ddechrau mis Mai.*

# RHYDYCEISIAID

Cynhaliwyd oedfa gymun brynhawn Sul, Mai 11eg.

Llongyfarchiadau i Mrs Nansi Evans ar ddathlu ei phenblwydd yn 100 oed – campus, gan ddiolch iddi am ei holl waith gyda'r Cardi Bach. Dymunwn iddi iechyd ac hapusrwydd i'r dyfodol.

# CWM MILES

Cafwyd oedfa arbenng ar Sul Ebrill 27ain yng nghwmni y Parchedig Euros Jones Evans a'i gymar Pat. Yn dilyn, mwynhawyd tê o dan ofal yr aelodau ym Mhenbontbren.

Mehefin 1af. Donna George - Cymun eto am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

LLAWN CARIAD
Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk




Bwyd Byd
- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

# LLANDDEWI

**Bethel**

Fe wnaeth aelodau Bethel ymuno â thua 75 o drigolion Llenddewi Efelffre i gerdded o gapel Bethel i gapel Ffynnon yn ddiweddar. A hynny ar hyd ffordd osgoi newydd Llanddewi oriau yn unig cyn iddi agor. Ar y diwedd roedd gwledd yn ein haros wedi ei pharatoi gan Janet ac Owen Phillips. Diolch i Janet, Owen, Edward a phawb o gwmni Griffiths am noson hyfryd.



Pawb yn barod i gerdded



Gwledd ar ôl y cerdded

# LLANBOIDY

**Chwaeroliaeth**



Ar Fai 1af, teithiodd yr aelodau i'r Hen Ysgol yn San Clêr i gael cinio. Wedi iddi dweud grâs, croesawodd y llywydd Wenfys Rees bawb i'r bwrdd. Wedi'r cinio bu'n cydymdeimlo â Ivy wedi iddi golli perthynas yn ddiweddar a dymuno penblwydd hapus i Norah ac i Heulwen Evans. Diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith yn ystod y tymor ac i bawb am eu cefnogaeth. Hefyd i staff Yr Hen Ysgol am baratoi pryd bendigedig.

**Penblwydd Hapus**





Penblwydd Hapus i Norah Heseltine a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 95 oed ar Ebrill 19eg.









# TRELECH

Cydymdeimlwn â Mrs Beryl Thomas,Penlan ar farwolaeth ei chwaer, Mrs Rosina Williams, Twmpath yn ddiweddar.

Mae Mr Brian James, Esgairlydan wedi mynd am gyfnod i Gartref Maes Llywelyn, CNE. Pob dymuniad da iddo.

Dymuna Menna Thomas-Jones, Brynsiriol, ddiolch o waelod calon am y cardiau, blodau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed ddechrau mis Ebrill. Diolch arbennig hefyd am y cyfraniadau hael iawn a ddaeth i law i Ambiwlans Awyr Cymru. Casglwyd y swm anrhydeddus o £1075. Diolch yn fawr.

Llongyfarchiadau i Elin Phillips, Cilifan ar gael ei dewis i fod yn ddirprwy lysgenhades gyda Ffermwyr Ifanc Sir Gar.

Pob lwc a dymuniadau gorau i ieuenctid yr ardal sydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Margam yn ystod gwyliau hanner tymor mis Mai. *(Gweler hanes Capel y Graig ar dud. 32)*

# PENYBONT

## CFfI Penybont

### Siarad Cyhoeddus Cymru

Ar Sul y Pasg bu ein haelodau yn brysur iawn yn cystadlu ar faes y sioe yn Llanelwedd, yn cynrychioli Sir Gâr yn yr Ŵyl siarad cyhoeddus.
Dyma'r canlyniadau:

1af: Tîm Adran Iau Saesneg
1af: Tîm Adran Iau Cymraeg
1af: Tîm Adran Ganol Cymraeg
1af : Tîm Adran Hŷn Saesneg
2il: Tîm Adran Ganol Saesneg

Llongyfarchiadau enfawr i Daniel O'Callaghan am ennill yr unigolyn gorau, yn ei gategori.

Llongyfarchiadau hefyd i Teleri James a Celyn Richards am gyrraedd y 3 uchaf ar gyfer yr unigolion gorau.

Cipiodd Sir Gâr y darian am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr Adran Saesneg, gan ddod yn ail yn yr Adran Gymraeg.



Tîm Siarad Cyhoeddus

## Canlyniadau Eisteddfod Rhanbarth Aelwyd Hafodwenog

Roedd brwdfrydedd aelodau Aelwyd Hafodwenog yn heintus unwaith eto eleni gyda llu o gystadlu yn Eisteddfodau Cylch a Sir Gorllewin Myrddin ym mis Mawrth. Erbyn hyn, mae'r cystadlaethau dan 25 oed yn mynd yn syth i'r rownd genedlaethol ond i'r aelodau iau, cafwyd noson lwyddiannus iawn yn Eisteddfod Ddawns Gorllewin Myrddin ar nos Lun 31ain o Fawrth yn Ysgol Bro Myrddin ac ym Mhontyberem yn Eisteddfod Uwchradd ar ddydd Mercher 2il o Ebrill. Gweler y canlyniadau llawn isod ac edrychwn ymlaen nawr at yr genedlaethol Eisteddfod Genedlaethol ym Margam!

1af – Dawns Werin Bl.10 ac o dan 19 oed
1af – Neli Rees – Dawns Unigol i Ferched Bl.9 ac iau
1af – Grŵp Hip Hop/Stryd/Disgo Bl.7 ac o dan 19 oed
1af – Cadi a Beca – Deuawd Bl.7-9
1af – Aelwyd Hafodwenog – Côr Bl.9 ac iau
1af – Aelwyd Hafodwenog – Grŵp Llefaru Bl.9 ac iau
2il – Gwenan Morris – Llefaru Unigol Bl.10 a dan 19 oed
3ydd – Elliw Jones – Llefaru Unigol Bl.7-9


Yn y categorïau dan 25 oed, bydd yr isod hefyd yn cystadlu yn Eisteddfod Dur a Mor 2025! Pob lwc i bawb sy'n cystadlu a mwynhewch y profiad!

Côr SATB 14-25 oed • Côr SSA 14-25 oed
Parti Cerdd Dant 14-25 oed • Dawns Werin dan 25 oed
Dawns Stepio Grŵp dan 25 oed
Dawns Stepio Unigol i Fechgyn – Caian Evans
Dawns Stepio Unigol i Fechgyn – Dion Jones
Dawns Stepio Unigol i Fechgyn – Abel Rees
Dawns Stepio Unigol i Ferched – Erin Jones









# LLANDYSILIO

## EISTEDDFOD Y GARREG LAS 2026

Pwyllgor Apêl Llandysilio a Clunderwen

Cynhaliwyd cyfarfod Apêl Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026 ar ran ardal Llandysilio a Clunderwen yng Nghapel Pisga Llandysilio ar 14eg Ebrill a daeth cynrychiolaeth dda o'r ddau bentref. Emyr Phillips oedd yn arwain y noson a phenodwyd Haulwen Pridmore yn Gadeirydd, Anna Williams yn Ysgrifennydd a Faith Wright yn Drysorydd. Faith bydd hefyd y Cydlynydd yn ardal Clunderwen.

Ar y cyd mae angen i'r ddau bentref godi £7,000

Mae'n bosib i unigolion gefnogi cystadlaethau trwy fynd i wefan yr Eisteddfod https://eisteddfod.cymru/yrwy1/2026/gwobrau.

Hefyd, gallwch gyfrannu un cyfanswm trwy'r banc neu yn fisol trwy ddebyd uniongyrchol. I gael y gwaith papur angenrheidiol cysylltwch trwy e-bost ag anna.williams2047@gmail.com<mailto:anna.williams2047@gmail.com> neu ar ffôn symudol Anna - 07850 713902 neu Haulwen 07788 816980. Pa bynnag ffordd i chi eisiau cyfrannu mae'n bwysig nodi eich ardal er mwyn iddo gael ei gofrestru o dan ein hymgyrch ni.

Fe fydd digwyddiadau yn y pentrefi dros y misoedd nesa' lle byddwn yn casglu arian rhydd ar gyfer yr Eisteddfod sef:

Diwrnod Hwyl Pafiliwn Clunderwen ar ddydd Sadwrn 21 Mehefin a:
Chyngerdd i gasglu arian i Neuadd Pentre' Llandysilio ar ddydd Gwener 27 Mehefin 2025 ym Mhisga.

Nodwch ddyddiad cyngerdd i godi arian i'r Eisteddfod yn uniongyrchol gyda Jess Robinson a Chôr Crymych ym Mhisga ar ddydd Sul, 22 Mawrth 2026.
Os ydych eisiau ymuno â rhestr e-byst i dderbyn gwybodaeth yn y dyfodol anfonwch eich cyfeiriad at anna.williams2047@gmail.com<mailto:anna.williams2047@gmail.com a chofiwch ddilyn ein trefniadau yn Y Cardi Bach ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Ymddeol**
Dymuniadau da i Cheryl Davies ar ei hymddeoliad ar ôl 28 mlynedd yn Ysbyty Llwynhelyg. Yn anffodus, bu'n rhaid iddi orffen gweithio bythefnos yn gynnar am ei bod wedi torri asgwrn yn ei choes. Gwellhad buan iddi er mwyn iddi allu mwynhau ei hymddeoliad.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Catrin a Tom Hodge ar enedigaeth merch fach sef Lois. Chwaer fach i Mabli.

**Gwobr**
Llongyfarchiadau i Siôn Jenkins a'r tîm am ennill Rhaglen Newyddion a Materion Cyfoes y Flwyddyn - Y Byd ar Bedwar: Y Daith i Rwanda.

**Neuadd a Maes Chwarae Llandysilio**
Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i'r bore coffi ar y 5ed o Fai i ddathlu diwrnod buddugoliaeth yn Ewrop. Roedd yn braf dod at ein gilydd i ddathlu.




Rydym wedi gosod llawr newydd yn y Neuadd. Diolch am eich cyfraniadau sydd wedi mynd tuag at y llawr, ac i gwmni carpedi K&O am ei osod.



Hefyd rydym wedi cael grant o Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, a gweithgareddau lleol i wneud y maes parcio yn fwy. Diolch i'r llythyron o gefnogaeth, a fu'n help i ni gyflawni'r gwaith. Diolch i bawb am eich amynedd a dealltwriaeth, pan roeddent wrth y gwaith dros y Pasg.
Diolch arbennig i Adrian Llewellyn a'i weithwyr gyda'r JCB, Rhys Mathias gyda'i lori, Mathew Davies y Swyddog Cyswllt Iechyd a Diogelwch. Alun Griffiths & Co. Young Brothers am storio'r cerrig, a diogelwch, Beanie Hammersley am sicrhau grant. ac wrth gwrs Anna Williams am drefnu and thrin popeth.

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
*Trydanwyr*
*Siop Radio a Theledu*
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

arwyddion
EagleSigns
Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
Uned 3/4, Parc Tir Owen, San Cler. SA33 4BY

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
*Cartref Oddi Cartref*

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

Neuadd a Maes Chwarae
LLANDYSILIO

**Cyngerdd**

Capel PISGA Llandysilio SA66 7TF
NOS WENER 27 MEHEFIN 2025
7.30 yh
Drysau ar agor 6.45

**Côr Meibion Hendy-gwyn a'r Cylch**
**Jencyn a Lefi**
**Peggy Ann a Poppy Hammersley**

Tocynnau £12.50 y pen
Rhad ac am ddim i blant ysgol gynradd
E-bost: anna.williams2047@gmail.com
neu neges destun ar 07850 713902 neu 07788816980
a chofiwch gynnwys eich rhif ffôn




### Blaenconin

Yn ystod y misoedd diwethaf ym Mlaenconin rydym wedi cael gwasanaethau gan Mrs Shan Jones a Mrs Orinda Roberts a'i mab. Diolch iddynt.

Yn mis Chwefror bu'r aelodau ym mrecwast Gŵyl Rhinwedd a Moes yng Nghaffi Beca.

Tro Blaenconin oedd cynnal Cwrdd Undebol Gwener y Groglith eleni. Daeth Huw Roberts a'i wraig Gwawr atom a chawson gwrdd arbennig iawn yng nghwmni Ffion Thomas, Arwel Evans a Caleb Nicholas. Diolch yn fawr iddynt.

Dydd Sul Ebrill 27ain - un o blant Blaenconin Y Parch. Owain Llŷr Evans ddaeth i wasanaethu, hyfryd oedd cael ei gwmni ac hefyd ei fam Anne.
Diolch yn fawr i bawb sydd wedi bod yn gweithio ar y festri, mae yn edrych yn hyfryd iawn.

### Pisga

Trefn yr oedfaon
Mai 25ain - Y Parch. Jill Hailey Harries 10.30 yb. Cymun
Mehefin:
1af - Y Parch. Eirian Wyn Lewis 9.00 - Cymun
8fed - Y Parch. Eirian Wyn Lewis 9.00 - Cymun a phaned i bawb yn dilyn y gwasanaeth.
8fed - Ysgol Sul yn Pisga am 9.00. Gweler manylion cofrestru yn dilyn.

## CLUNDERWEN

### Penblwyddi

Penblwydd Hapus iawn i Mary Philomena a oedd yn 50 oed ar 27ain o Ebrill.



....hefyd Penblwydd hapus iawn i William Hughes a oedd yn 18 oed ym mis Ebrill.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gyda Kirsty Morris a'r teulu ar golli ei thad a'i hwncwl.

### Gwneud Hanes

Mae William Hughes ac Owain, y ddau o Glunderwen wedi cwblhau hanes dwbwl yn y tymor 2024-25,

**HUW JONES**
**ADEILADWR**
Dorset House
Heol y Gogledd
Hen Dy Gwyn ar Daf



Ffôn: 01994 240811
Symudol: 07817 633329

**DERI PAGE**
**CIGYDD**



Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

**GT TYRES**



Arbenigwr mewn
Teiars Ceir,
Masnachol
ac Amaethyddol
**Brooklyn Garage**
**Heol y Castell**
**Aberteifi. SA43 3AE**
☎: 01239 612814 / 07765 034705

ynghyd â'u cyd-chwaraewyr o Glwb Pel-droed Hwlffordd. Ar ddechrau mis Ebrill enillwyd Cwpan ieuenctid CBDC am y tro cyntaf yn hanes y clwb wedi buddugoliaeth 2-1 yn erbyn Tre Caernarfon yng Nhoedlan y Parc, Aberystwyth, mewn ras teitl wefreiddiol yn Academi National CBDC, Cynghrair Datblygu'r De 24/25. Roedd rhaid aros am y chwiban rhwng CPD Prifysgol Met Caerdydd a Thre Merthyr, cyn cael ein coroni yn bencampwyr y gynghrair am yr ail dymor yn olynol.






**Trac Pwmp y Cae Chwarae**

Mae Parc Chwarae Clunderwen yn eiddo i'r gymuned ac felly mae'n rhaid i ni godi arian i brynu offer newydd i'r plant a phobol ifanc.

Y prosiect diweddaraf oedd creu 'trac pwmp'. Daeth dylunydd traciau pwmp o'r enw Jo Baberly o Loegr i helpu dylunio trac yn y cae. Yn lle defnyddio tîm Jo i adeiladu'r trac, fe ddaeth tîm o bobol ifanc o'r gymuned at ei gilydd i greu trac!

Roedd Pwyllgor y Cae Chwarae wedi bod yn codi arian ac fe wariwyd £15000 i adeiladu'r trac nôl ym mis Medi. Dim ond wythnos gymerwyd i'w adeiladu gan fod y gwirfoddolwyr wedi cymeryd amser bant o'r gwaith!

Mae'r trac wedi bod dan ei sang gyda phlant ar eu beiciau, sglefrfyrddau, sgwteri a chadeiriau olwyn. Cafodd y trac ei adeiladu i wneud yn siwr ei fod yn addas i gadeiriau olwyn hefyd. Mae hyn mor bwysig i ni fod pawb yn cael yr un chwarae teg.



Ar Fai 3ydd, cynhaliwyd diwrnod i agor y trac pwmp yn swyddogol. Roedd yna barbeciw, te, coffi, diodydd oer ac amser i chwarae ar y trac gyda Jo Baberly yn gwneud symudiadau proffesiynol, a cherddoriaeth gan Rhodri Lewis. Fe ddaeth Lloyd Y Graffiti i greu murlun o'r trac ar wal gefn y toiledau.

Cafodd plant y siawns i helpu drwy ddefnyddio caniau chwistrellu dan oruchwyliaeth hefyd. Yn wir, roedd hi'n ddiwrnod arbennig iawn i ddathlu darn o offer newydd sydd wedi creu argraff nid yn unig yn y gymuned ond dros ardal eang.






Neuadd Gymunedol Clunderwen

Clwb Croeso Clunderwen

**Bore Coffi**

Pob Dydd Iau

5ed a 19eg Mehefin

3ydd a 17eg Gorffennaf

10.30yb - 12.00

*Croeso i bawb*

## Pwyllgor apêl Efailwen, Login, Llanglydwen, Hebron a Cwm Meils

Cynhaliwyd ail gyfarfod pwyllgor apêl Efailwen, Login, Llanglydwen, Hebron a Cwm Meils ar nos Fercher 30ain o Ebrill yng Nghaffi Beca. Braf oedd gweld nifer o drigolion lleol yna'n cefnogi.

Mi fydd noson Bingo yn cael ei chynnal ar 23ain o Fai yng Nghaffi Beca. Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr i'r canlynol am eu nawdd hael: Llinell - Russell Thomas Plant Hire; Bar Beca; Pasta Boy; Luke Blackmore Tree Surgery & Garden Maintenance; Mêl Gwel y Meini; Teulu Fussell, Gelli Villa; Siop Glandy Stores; Gareth Jones, Siop Glandy; Hafwen a Biki Davies; Becws Bets a D.Jones Trefnwyr Angladdau. Rydym yn ffodus iawn o gael cymuned mor garedig ac awyddus i gyfrannu.

Mi fydd sawl digwyddiad arall dros yr haf a'r hydref, gan gynnwys helfa drysor ar y 15fed o Orffennaf yn dechrau a gorffen yn Bar Beca; cyngerdd o dalent lleol mis Medi; a taith gerdded ar y llwybrau cyhoeddus - cadwch lygad am hysbysebion!

Cofiwch bod modd cyfrannu tuag at yr achos drwy noddi cystadleuaeth ar wefan Eisteddfod 2026. Mae Ceirios Jenner hefyd yn cynnal calendr nawdd, ble gallwch brynu dyddiad am £1 gan obeithio taw eich dyddiad chi fydd yn fuddugol! Cysylltwch â Ceirios os am brynu dyddiad.

Edrychwn ymlaen at weld nifer ohonoch yn y Bingo ar y 23ain o Fis Mai ac yn barod i chwarae erbyn 7.30!

---

### Hoelion Wyth - Cangen Beca

Ar y 9fed o Fai, i orffen y tymor eleni, aethom ar daith ddirgel a drefnwyd fel arfer gan Eurfyl Lewis, ein swyddog adloniant. Yn anffodus methodd Eurfyl fod yn bresennol ar y noson a chymerwyd at y trefniadau gan Ken ac Eifion. Teithiom ar fws Midway i gyfeiriad y de o gaffi Beca ac wedyn ar yr hewl newydd o Benblewin i gyfeiriad Hendy-gwyn ar Dâf a chyrraedd Penyrheol, Ciffyg lle mae pencadlys Bysiau Cwm Tâf.

Yno i'n croesawu oedd un o gyfarwyddwyr y cwmni bysiau - yr adnabyddus a'r deryn Clive Edwards. Cawsom ein tywys i'r swyddfa lle roedd Joseph, ei fab yn ein disgwyl hefyd. Eglurodd Clive ychydig o hanes y busnes ers iddo ei sefydlu yn 1990. Cafodd fenthyciad di-log gan Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru ac ychydig o fenthyciad wrth ei dad-cu, a dyma brynu ei fws cyntaf ar gyfer teithiau plant ysgol. Trwy lawer o fenter, hyder a chefnogaeth banc Nat West, mae busnes Clive a Heather wedi datblygu'n helaeth. Un o'r datblygiadau mwyaf oedd prynu safle'r pencadlys ym Mhenyrheol. Yn 2016 aeth cwmni bysiau mawr Silcox o Dde Sir Benfro i ddwylo'r gweinyddwyr a daeth Bysiau Cwm Taf i'r adwy drwy gymryd sawl taith gwasanaeth a theithiau plant ysgol. Roedd hyn yn golygu etifeddu lleoliad yn Noc Penfro hefyd sy'n fan gwaith i ddau berson swyddfa a gyrrwyr y gwasanaethau. I'w alluogi i wneud hyn gorfu i Clive brynu sawl bws dros gyfnod o benwythnos cyn dechrau'r gwasanaethau.

Bu cyfnod y Covid yn anodd i'r cwmni ond bu cyfle i ddatblygu iard y pencadlys bryd hynny ac erbyn hyn mae sawl sied fawr ac ardal goncrit eang i'r bysus barcio. Mae dros 50 o fysus gan y cwmni, yn amrywio o fysiau mini, midi, rhai ar gyfer gwasanaethau a rhai ar gyfer y teithiau undydd a gwyliau.

Tra yn y swyddfa dangosodd Joseph y system gyfrifiadurol sy'n tracio'r bysiau gwasanaeth. Mae modd gweld lle mae pob bws ar y sgrin fawr a hefyd gweld sawl tocyn sy'n cael ei ddosbarthu ym mhob arosfan bws. Mae'r holl ddata yn gorfod bod ar gael i swyddogion Trafnidiaeth Cymru. Mae Clive yn ymfalchïo bod ei wasanaethau trafnidiaeth Cymru wedi cael sgôr effeithlonrwydd o 99.8%. Tipyn o gamp! Ar ddiwedd ein hyweliad tywyswyd ni o gwmpas yr ardal allanol lle gwelsom rai o'r bysiau, offer codi cadair olwyn mewn i fws, y garej a'r peiriant golchi bysiau. Esboniodd Clive y bydd hi'n ofynnol i bob bws gwasanaeth a theithiau ysgolion gynnwys offer codi cadair olwyn yn y dyfodol ac mae tipyn i'w wneud cyn fod hyn yn ymarferol bosib. Mae addasu bws i dderbyn yr offer yma yn costio tua £40,000.

Diolchwyd i Clive gan ein Cadeirydd Eifion Evans cyn i ni deithio ymlaen i gael swper blasus yn nhafarn y Fox & Hounds, Bancyfelin.

BAR BECA
Rhosfach, Efailwen
Guto Jenkins
Oriau agor Gaeaf: Hydref 1af-31 Mawrth
(Ar gau Llun, Mawrth a Mercher)
Agor Iau a Gwener: 4.30yp - 11yh
Sadwrn a Sul 3yp - 11yh
Oriau Haf: Ebrill 1af - 30ain Medi
(Ar gau nos Lun)
Agor Mawrth, Mercher, Iau 5.30yh - 11yh
Gwener, Sadwrn, Sul 3yp - 11yh
Ffôn: 07554 664316

GSJ
G.S.JENKINS
EFAILWEN, CLUNDERWEN
07554 664 316
Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar


Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

# Blog Celyn Richards



Mae Celyn Richards o Sanclêr yn aelod o Senedd Ieuenctid Cymru eleni, a hithau'n Gadeirydd Fforwm Ieuenctid CFfI Cymru. Rai misoedd yn ôl, fe aeth ar daith breswyl Senedd Ieuenctid Cymru. A dyma'i hargraffiadau:

Dros benwythnos cyntaf  hanner tymor, fe ges i, Celyn Richards, Cadeirydd Fforwm Ieuenctid CFfI Cymru'r anrhydedd o fynychu trip preswyl Senedd ieuenctid Cymru. Fe wnes i gael fy ethol fel aelod o Senedd Ieuenctid Cymru trwy bartneriaeth mudiad CFfI Cymru. Braint ac anrhydedd oedd hyn i mi, ac rwyf wir wedi mwynhau pob eiliad o fod yn rhan o drydydd tymor Senedd Ieuenctid Cymru, ac yn edrych ymlaen at beth mwy sydd i ddod!

Ar ddydd Gwener, yr 21ain o Chwefror, teithiom i Gaerdydd a dechrau ein taith breswyl. Ar ôl gadael ein bagiau yng ngwersyll yr Urdd, cerddon ni draw i'r Senedd, lle cafwyd cyflwyniadau, gan gynnwys cyflwyniadau gan gyn-aelodau. Ar ôl yr holl gyflwyniadau, cawsom daith o amgylch y Siambr, a darganfod ble yn union y byddwn yn eistedd ddydd Sadwrn ar gyfer ein hareithiau, lle cefais y pleser o eistedd yn sedd Vaughan Gething. Ar ôl dysgu lle'r oedd pawb yn eistedd, a hefyd rhai ffeithiau am y siambr, daeth yn amser dychwelyd yn ôl i'r gwersyll am swper a gweithgareddau torri'r iâ.

Roedd y tasgau'n cynnwys siarad mewn grwpiau am beth yn union yr oeddem am ei gyflawni o'r penwythnos preswyl, a chawsom gyfle hefyd i ddod i adnabod ein gilydd yn well. Ar ôl hyn, aethom yn ôl i'r ystafelloedd yr oedden yn aros ynddynt. Syndod braf oedd cael rhannu ystafell gydag aelod arall o Fforwm Ieuenctid Cymru, Neli Rhys, a etholwyd yn aelod o etholaeth Meirion Dwyfor.

Ar fore Sadwrn, fe ddeffrom ni i gyd yn gynnar i baratoi ar gyfer y diwrnod mawr : ein hareithiau. Aethon ni draw i'r Senedd, ac erbyn 10yb, roedden ni gyd yn barod yn ein seddi, yn barod am ddiwrnod llawn o wrando. Rhannwyd yr areithiau mewn i dair adran, gydag areithiau pawb yn dod o dan bynciau penodol. Roedd araith Neli Rhys yn disgyn o dan y cwricwlwm, a fy un i o dan amaethyddiaeth. Ar ôl i bawb gwblhau ei hareithiau, fe bleidleisiwyd ar y tri mater o'n dewis. Y tri ddaeth i'r brig oedd:

- Costau byw a thlodi
- Trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol
- Trosedd a diogelwch



Ar ôl diwrnod hir o areithio, derbyniwyd 'Media training' gan ddau newyddiadurwr o BBC Cymru, a dysgu beth yn union i wneud yn ystod cyfweliadau, a chael y cyfle i ofyn unrhyw gwestiwn. I orffen diwrnod hir, cafwyd y cyfle i ymlacio, ac wedyn mynd i fowlio, am ffordd wych i orffen penwythnos anhygoel!

Yn sicr, roedd y daith breswyl yma gwerth chweil ac yn brofiad hollol amazing! Rwyf wedi creu nifer fawr o ffrindiau newydd, ac yn edrych ymlaen yn fawr at fy nyfodol fel aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, a methu aros nes y daith nesaf!

Y CARDI BACH, BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BRYNCONIN

**Arddangosfa Celf a Chrefft**

Diolch i Mrs Jayne Thomas am roi ei hamser i feirniadu gwaith Celf Ysgol Brynconin ar brynhawn Iau, 10fed o Ebrill. Llongyfarchiadau enfawr i Magi John am ennill Tlws Christopher Thomas am ennill y mwyaf o bwyntiau am waith Celf. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Ela Blethyn am ennill yr ail wobr, i Cynan Makepeace, Angelica Pearce, Ffion ac Hari Beynon am y drydedd wobr ac i Hazel Pearce a Mali Harris am ennill y bedwaredd wobr. Mae pawb a ddaeth yn gyntaf, ail neu trydydd wedi derbyn tystysgrifau. Cafwyd cyfle i'r gymuned weld y gwaith gwych adeg ein arddangosfa gelf ar brynhawn Iau, 10fed o Ebrill yn yr Ysgol.



**Celf a Chrefft yr Urdd**

Llongyfarchiadau i bawb o Ysgol Brynconin am gystadlu mor dda yn y Celf a Chrefft yr Urdd eleni. Llwyddwyd i ennill 23 o wobrau!

Cyntaf:
Heti Davies – Graffeg Cyfrifiadurol
Magi John – Ffotograffiaeth wedi addasu
Ela Blethyn – Ffotograffiaeth Lliw
Cynan Makepeace – Argraffu
Magi John – Pypedau
Ela Blethyn – Pypedau
Magi John – Serameg
Ela Blethyn - Gemwaith

Ail:
Ela Blethyn – Ffotograffiaeth Du a Gwyn
Magi John – Cyfres o Luniau Du a Gwyn
Magi John – Argraffu
Ffion Beynon - Pypedau

Trydydd:
Amara William Jones Wheeler – Dylunio Crys T
Heti Davies – Gwaith Creadigol 2D
Magi John – Graffeg Cyfrifiadurol
Heti Davies – Ffotograffiaeth Du a Gwyn
Magi John – Ffotograffiaeth Du a Gwyn
Ela Blethyn – Cyfres o Luniau Du a Gwyn
Magi John – Cyfres o Luniau Lliw
Heti Davies – Pypedau
Heti Davies – Uwchgylchu
Ela Blethyn – Serameg
Mali Harries - Gemwaith



**Eisteddfod Maenclochog**

Da iawn i bawb a wnaeth gystadlu yn Eisteddfod Maenclochog Dydd Llun, 5ed o Fai yn neuadd bentref Maenclochog. Braf yw cael cefnogi ein Eisteddfod leol. Llongyfarchiadau enfawr i Ela am ddod yn gyntaf, i Albie ac Archie am ddod yn ail ac i Osian am ddod yn drydydd yn y cystadlaethau Celf a Chrefft. Llongyfarchiadau enfawr hefyd i Cynan am ennill y wobr gyntaf, i Deri W, Magi a Poppy am ennill yr ail wobr ac i April am ddod yn drydydd yn y barddoniaeth. Da iawn chi gyd!

**Llangrannog**

Mae plant Dosbarth Rhuddem wedi cael amser braf a bythgofiadwy yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog gan brofi profiadau anhygoel. Teithiodd Blwyddyn 5 a 6 i Langrannog ar fore Mercher, 7fed o Fai gan dreulio tridiau yno. Un o'r pethau gorau oedd sgio a chael cyfle i fwyta hufen iâ ar draeth Llangrannog. Diolch enfawr i Miss Davies a Miss Kim am roi eu hamser i ofalu am y plant.



**Thema'r Tymor – O Don i Don**
Ein thema am Dymor yr Haf yw 'O Don i Don' ac mae'r plant wedi bod wrthi'n brysur yn cynllunio ar gyfer y thema newydd. Fel sbardun i'r thema fe wnaeth plant Ysgol Brynconin gerdded o gwmpas y pentref a chasglu sbwriel. Ein bwriad bydd casglu sbwriel ar draeth Amroth a chymharu faint o sbwriel sydd yn y ddau le. Bydd y plant hefyd yn dysgu sut mae sbwriel a phlastig yn effeithio ar fywyd y môr. Rydym yn edrych 'mlan i ddysgu am fywyd y môr.

---

# YSGOL HAFODWENOG

**Cwis Dim Clem**
Llongyfarchiadau i Eres, Lois, Marged a Sara am gystadlu yn y Cwis Dim Clem gyda Menter Gorllewin Sir Gâr ac ennill y rownd gyntaf. Da iawn chi.

**Dydd Miwsig Cymru**
Fel rhan o ddathliad Dydd Miwsig Cymru, daeth Stella o Actif i wneud gweithdy byw gyda'r disgyblion.

**Prenfaen**
Diolch i Prenfaen am yr offer newydd tu allan. Mae'r plant yn mwynhau a diolch am rhoi y cyfle iddynt fod yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

**Eisteddfod Ysgol**
Cawsom wledd o gystadlu yn yr Eisteddfod Ysgol, canu, llefaru, dawnsio, clocsio a gwaith ysgrifenedig. Llongyfarchiadau i bob un am gystadlu.

Enillydd y gadair – Sara Davies Enillydd y goron – Eres Phillips Perfformiad gorau – Cari-Haf Thomas Tarian Celf – Marged Harries
Tîm Teifi yn fuddugol



Diolch i Miss Mared Evans a Mr Daniel O'Callaghan am feirniadu.
Diolch i Mr Sion Evans am greu'r gadair a'i rhoi yn anrheg i'r ysgol ac i Mrs Elen Bowen am greu'r goron ar gyfer yr Eisteddfod.

**Eisteddfod Gylch**
Cawsom Eisteddfod Gylch lwyddiannus-
Llefaru blwyddyn 3 a 4:
1af Iwan 3ydd Elain Llefaru blwyddyn 5 a 6
1af Sara 3ydd Lois a Marged Unawd blwyddyn 5 a 6
1af Cari-Haf
Deuawd (Sara a Cari-Haf) - 3ydd Côr – 2il
Parti Unsain – 1af
Ymgom – grŵp Hafod – 1af
Grŵp llefaru – 1af

**Eisteddfod Ddawns**
Dawns werin blwyddyn 3 a 4 – 2il Dawns werin blwyddyn 5 a 6 – 1af
Clocsio unigol i ferched – Lois – 2il Sara – 3ydd
Clocsio unigol i fechgyn - Iwan – 1af, Owain – 2il, Cillian – 3ydd
Grŵp stepio – 1af

**Eisteddfod Rhanbath**
Parti Cerdd Dant – 2il Llefaru (5a6) – Sara – 2il
Parti llefaru – 2il
Parti Unsain – 1af
Llefaru (3a4) – Iwan – 3ydd Unawd cerdd dant – Eres – 3ydd Unawd (5a6) – Cari-Haf – 3ydd Ymgom – 2il

Mae wedi bod yn amser prysur iawn i bawb yn ddiweddar. Yr ydym yn ffodus iawn bod y disgyblion yn cael y cyfleoedd i wneud y gwahanol weithgareddau ac yn mwynhau. Diolch i bawb sy'n rhoi yr amser i ddod i'r ysgol i helpu a hyfforddi. Mae ysgol Hafodwenog yn lwcus iawn o'r rhieni a'r gymuned.

**Taith**
Aeth pawb ar daith addysgiadol i reilffordd Gwili ac Amgueddfa Abergwili i gyd fynd gyda ein thema – Oes Fictoria.




**Plannu tatws**
Diolch i ddisgyblion Cae Glas a fu'n brysur yn plannu tatws yn ddiweddar.

**Swper Olaf**



Bu disgyblion Rhos Fach yn brysur yn ail greu'r Swper Olaf yn y dosbarth.

**Gemau'r Buarth**
Diolch i Gwyneth o Menter Gorllewin Sir Gâr am ddod i wneud sesiwn hwyliog o gemau'r buarth yn ddiweddar.

**Pentre Ifan**
Aeth disgyblion Cae Glas ar daith breswyl i wersyll yr Urdd Pentre Ifan.

**Disgyblion newydd**
Croeso i chwech disgybl newydd, Eiri, Erin, Heti, Isabella, Morgan a Nansi sydd wedi dechrau ar ôl gwyliau'r Pasg.

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Croeso**
Croeso mawr i'r 13 o ddisgyblion newydd sydd wedi dechrau gyda ni ar ddechrau tymor yr Haf. Pob hwyl iddynt fel rhan o deulu Ysgol Griffith Jones.

**Chwaraeon**
Bu bechgyn a merched hŷn yr Ysgol yn cymryd rhan yng nghystadlaethau pêl droed yr Urdd. Aeth tim o fechgyn a merched o Flynyddoedd 5 a 6 yn ogystal â thimau cymysg o Flwyddyn 4 i gystadlu. Llongyfarchiadau i bob un a gymerodd rhan.



Tîm bechgyn yr ysgol



Tîm bechgyn yr ysgol

**Eisteddfod yr Urdd**
Bu 120 o'n disgyblion yn cystadlu yng Nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd. Llongyfarchiadau mawr i Jessica Mason, Sonny Evans a grŵp o blant o ddosbarthiadau Olwen ac Hywel sydd wedi llwyddo i fynd ymlaen i'r rownd Genedlaethol gyda'u gwaith.



Cynhaliwyd gwasanaeth gyda disgyblion Blwyddyn 3-6 i nodi wyth deg mlynedd ers Diwrnod VE a diwedd yr Ail Ryfel Byd. Aeth Dosbarth Branwen i ymuno mewn seremoni arbennig wrth y gofeb yn y dref o dan arweiniad y Lleng Brydeinig. Fel rhan o'r seremoni, cyflwynodd aelodau'r Cyngor Ysgol dorch arbennig i anrhydeddu y sawl a gollwyd yn ystod y Rhyfel.

# YSGOL BRO BRYNACH

**Twrnameintiau Pêl-droed yr Urdd**
Bu bechgyn a merched o flynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yr Ysgol yn cymryd rhan yng nghystadlaethau pêl-droed yr Urdd. Da iawn i bawb am gystadlu mor frwd!

**Celf a Chrefft Rhanbarth yr Urdd**
Gwelwyd nifer helaeth o ddarnau celf yn yr Eisteddfod Rhanbarth eleni. Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion a wnaeth gystadlu a dangos eu doniau celfyddydol a chreadigol.

**Gweithdy celf**
Braf oedd cael croesawu Mr Rhys Padarn Jones (Orielodl) i'r Ysgol er mwyn cynnal gweithdy celf gyda phlant o flwyddyn 2 i 6 ar ddydd Mawrth, 6ed o Fai. Creuwyd murlun enfawr a lliwgar yn dathlu 20 mlynedd ers i Ysgol Bro Brynach agor nôl yn 2004.
Gwelir y lluniau isod



Blwyddyn 5 a 6




Blwyddyn
3 a 4



Blwyddyn 2

**Dathlu 20 mlynedd**
Dyddiad i'r dyddiadur, ar y 14eg o Orffennaf bydd disgyblion yr ysgol yn perfformio sioe ar gyfer dathliad ugain mlynedd.


## YSGOL LLYS HYWEL

**Urdd - Pêl droed**



Aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 i gystadlu yn nghystadleuaeth pêl droed rhanbarth Myrddin yn Pontyberem. Ar y diwrnod canlynol, roedd merched blwyddyn 5 a 6 a thîm blwyddyn 3 a 4 wedi cymryd rhan hefyd. Cystadlwyd yn frwd a da iawn i bawb.

**PC Cath**



Diolch i PC Cath am ddod mewn i rannu neges bwysig iawn am fwlio ar lein gyda phlant blynyddoedd 3 i 6.

**Mis Cerdded am Iechyd meddwl**
Braf oedd gweld yr ysgol gyfan yn cerdded milltir pob dydd trwy gydol mis Mai er mwyn codi ymwybyddiaeth am Iechyd Meddwl. Bu'r plant yn mwynhau cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau ar gyfer wythnos iechyd meddwl hefyd.

**Diwrnod VE**




Dathlwyd diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop wrth i'r plant ddod at ei gilydd i anrhydeddu a thalu teyrnged i genhedlaeth yr Ail Ryfel Byd, trwy gymryd rhan mewn gemau o'r cyfnod yn ogystal â chyfeiriannu yn yr awyr agored ar sail delwedd y cyfnod.

## YSGOL BANCYFELIN

**Celf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i'r plant wnaeth gystadlu yng Nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd – braf oedd gweld cymaint ohonoch wedi gwneud yr ymdrech i gymryd rhan ac i greu campweithiau o safon arbennig. Pob lwc i'r rhai ohonoch sydd wedi llwyddo i gyrraedd y rownd derfynol.

**Ymweliad Ditectif Dafi**



Am sesiwn wych! Diolch i Ditectif Dafi (Lowri Siôn) am ddod i ymweld â Dosbarth y Llan, Ysgol Bancyfelin i gynnal sesiwn stori, symud a hwiangerddi llawn hwyl a sbri.

Cafodd y disgyblion amser bendigedig yng nghwmni'r Ditectif yn ymchwilio a datrys problemau difyr.

**Dechrau'r Ysgol**



Croeso i ddisgyblion newydd Dosbarth y Llan Bancyfelin. Gobeithio i chi fwynhau eich wythnos gyntaf yn yr ysgol gyda ni.

Diolch o galon i Gymdeithas Rieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol am roi'r ffolderi darllen i'r plant newydd.

**Capel y Graig, Trelech -** *parhad o dudalen 22*

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, cynhaliwyd oedfaon bendithiol iawn. Diolch yn fawr iawn i bob un fu'n llenwi'r pulpud.

Yng Nghapel y Graig, Mawrth 23ain, Parchg Emyr Gwyn Evans. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Emyr ar golli ei dad yn ddiweddar. Ebrill 27ain, oedfa gymun, Mr Lyndon Lloyd. Cafwyd cyfle hefyd i ymuno gyda chapeli'r ofalaeth ar: Ebrill 6ed, Pen-y-bont gyda Mr Dafydd Evans. Ebrill 13eg, Sul y Blodau, yn Ffynnonbedr gyda Mr Sion Page; Mai 4, Capel Cendy, gyda Mr Nigel Davies.

Ar hyn o bryd mae'r paratoadau yn mynd ymlaen ar gyfer y Gymanfa Bwnc a gynhelir yng Nghapel Pen-y-bont,ar 18fed o Fai am 2.00 yp. Miss Karen Owen fydd yn holi'r pwnc. Ar yr un diwrnod cynhelir Cymanfa Bwnc Bwlchnewydd, Capel Cendy ac Elim am 11.30 yb. Karen Owen fydd yn holi'r ysgolion.

Trist yw nodi bod Mrs Morfydd Jones, gwraig y diweddar Barchedig James Henry Jones, wedi huno ar Ebrill 6ed yn 85 mlwydd oed. Coffa da am wraig a fu'n gefnogol iawn i'w gŵr ar hyd ei weinidogaeth. Bu'n athrawes Ysgol Sul weithgar, aelod ffyddlon, cynhyrchydd brwdfrydig Cwmni Drama Capel y Graig a'r Cylch, ac yn gefnogol i weithgareddau amrywiol yr ardal tra bu'n aelod yma. Cydymdeimlwn gyda'i chwaer, teulu, ffrindiau a'r holl gysylltiadau. Cynhaliwyd yr angladd hollol breifat ar y 7fed o Fai yng Nghapel Gorffwys Soar, Sarnau a oedd yng ngofal y Parchg Emyr Lyn Evans. Rhoddwyd i'w gorffwys ym Mynwent Yr Hen Gapel, Aberporth.

Eisteddfod Dur a Môr,
Parc Margam a'r Fro 2025

Dymuniadau gorau i bawb o fro'r Cardi Bach sy'n cystadlu ac yn cymeryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr
Mai 26ain - Mai 31ain

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab




Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
sef. 1985 est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD TŶ
DERV
DISEL FFERM
LLWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS



Warm to our Service
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
(01239) 881630
www.trefigin.cymru
(01239) 881282

## Cyfrol newydd o'r wasg




Gwasg Carreg Gwalch. Pris: £11.99
Dyddiad cyhoeddu 11eg Mehefin 2025




**ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL**

**MOT**

**•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4**

**Offer Diagnostig Diweddaraf**



**Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin**
Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER

**Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313**
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP

Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Mehefin 2025** | | |
| Mer 18 | **Diwrnod y Merched, Royal Ascot** | 3 |
| Llun 30 | **Gwesty Warner, Nidd Hall, Swydd Efrog** | 5* |
| **Gorffennaf 2025** | | |
| Maw 22 a Mer 23 | Sioe Frenhinol Cymru | 1 |
| Iau 24 | **Sidmouth** | 5* |
| **Awst 2025** | | |
| Llun 4 | **Eisteddfod a Chaer** | 6* |
| Gwe 8 | Eisteddfod | 1 |
| **Medi 2025** | | |
| Llun 1 | **Swydd Ceint, Gardd Lloegr** | 5* |
| Llun 15 | **Tai Hanesyddol a Gerddi y Gogledd Orllewin** | 5* |
| Gwe 20 | **Penwythnos Siopa Uwchsonig (Concorde)** | 2 |
| Llun 23 | **Iwerddon - Swydd Mayo** | 6* |
| **Hydref 2025** | | |
| Llun 6 | **Gwesty Warner, Cricket St. Thomas** | 5* |
| Llun 13 | **Ardal y Llynnoedd** | 5* |
| Sad 25 | *Sioe Warhorse, CMC* | 1 |
| **Tachwedd 2025** | | |
| Gwe 7 | **Twrci a Tinsel - Torquay** | 5* |
| Sad 15 | *Sioe Riverdance 30, Caerdydd* | 1 |
| Sad 15 | *Sioe Gerdd Top Hat, Caerdydd* | 1 |
| Sad 29 | **Goleuadau Nadolig Palas Blenheim a Windsor** | 2 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Rhagfyr 2025** | | |
| Sad 6 | Marchnadoedd Nadolig Caerfaddon | 1 |
| Maw 16 | *Rob Brydon, Arena Utility, Caerdydd* | 1 |
| Sad 13 | Nadolig yng Nghanolfan Arddio Yr Hen Rheilffordd ger Aberhonddu | 1 |
| Sad 13 | *Sioe Gerdd - Mary Poppins, CMC a Bae Caerdydd* | 1 |
| **Ionawr 2026** | | |
| Sad 10 | **ABBA Voyage a Windsor** | 2 |
| **Chwefror 2026** | | |
| Gwe 6 | **Torquay - Cynheswr Gaeaf** | 4* |
| Sad 7 | *Sioe Gerdd - Here & Now (Cerddoriaeth Steps)* | 1 |
| Llun 16 | **Gwesty Warner - Holme Lacy** | 5* |
| Sad 18 | *Sioe Gerdd Tina Turner, Caerdydd* | *1* |
| **Mawrth 2026** | | |
| Gwe 20 | **'A Fab 4 Days in Liverpool'** | 4* |
| **Ebrill 2026** | | |
| Llun 13 | **'Avon's Calling'** | 5* |
| Sul 19 | **Te Prynhawn Brenhinol yn Windsor** | 2 |
| **Mai 2026** | | |
| Llun 11 | **Cadarnleoedd Cudd Iwerddon** | 6* |
| Sad 16 | *Sioe Gerdd Buddy - Stori Buddy Holly, Caerdydd* | 1 |

**2025 yw ein pen-blwydd yn 60 oed. Mae siawns i ennill Taleb Teithio ar bob taith yn ystod y flwyddyn.**
**Mae manylion gwyliau 2026 i gyd ar lein nawr!!!**

***Gwasanaeth Drws i ddrws ar y teithiau yma / Gallwch archebwch ar lein neu ar y ffôn.**

# PENBLWYDD HAPUS




Penblwydd hapus iawn i Betsi Haf o Feisgyn. Fe fydd hi'n naw oed ar yr unfed ar bymtheg o Fehefin. Cariad mawr wrth, Mami, Dadi, Efa-Grug a Mari Elli, Mamgu a Geraint, Carreglwyd, Llangynin a Hen-Ddadcu, Tymore, Llangynin. xxx







Penblwydd Hapus i Alys James o Benybont-ar-ogwr a oedd yn 9 oed ar Fai 22ain a'i chefnder Steffan Leeke o'r Bontfaen a oedd yn 4 oed ar Fai 24ain. Cariad mawr oddi wrth Dadcu a Nain (Ryland a Beti-Wyn), Anti Iona ac Wncwl Ceri.



Penblwydd hapus i Lloyd Hart (ŵyr i Iori a Ceri Saer, Blaenffynnon) oedd yn 14 oed ar y 21ain o Fai. Hefyd i Mari Saer Hart fydd yn 6 oed ar y 11eg o Fehefin. Cariad oddi wrth y teulu yn lleol, Pen y Bont ar Ogwr a Warrington.

Penblwydd Hapus cyntaf i Llew a Macsen Benjamin. Efeilliaid Gethin a Sian o Hendygwyn. Wyrion i Ann-Marie a Bernadette o Bontiets a gor-wyrion Dorothy.






Penblwydd Hapus iawn i Lyra Farnden yn 2 oed ar Fai 15fed. Merch Nia a Robert Farnden o Tegryn, chwaer fach i Ema ac wyres Delyth a Michael Roblin, Clunderwen.



Penblwydd Hapus iawn i Keira May Evans yn 10 mlwydd oed ar 19eg o Fai. Joia'r dathlu! Llawer o gariad oddi wrth y teulu i gyd. xxx



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwe 30ain Mai | PENWYTHNOS "ABBA VOYAGE" yn LLUNDAIN | £410 | 3 Diwrnod |
| Gwe 6ed Mehefin | MINEHEAD a RHEILFFORDD "WEST SOMERSET" | £455 | 4 Diwrnod |
| Sul 8fed Mehefin | MEYSYDD y BRWYDRO yn NORMANDI | £825 | 5 Diwrnod |
| Sul 15fed Mehefin | GOGONEDDAU CUDD yr IWERDDON | £775 | 6 Diwrnod |
| Gwe 20fed Mehefin | GERDDI a GRAWNWIN SURREY | £440 | 4 Diwrnod |
| Llun 23ain Mehefin | CASTLE HOWARD a DINAS HYNAFOL EFROG | £535 | 5 Diwrnod |
| Gwe 27ain Mehefin | WEYMOUTH | £405 | 4 Diwrnod |
| Maw 1af Gorffennaf | LLANDUDNO a YNYS SEIRIOL YNYS MON | £585 | 5 Diwrnod |
| Sul 6ed Gorffennaf | MORDAITH ar AFONYDD RHINE a MOSELLE yn yr ALMAEN | £1,950 | 9 Diwrnod |
| Sad 12fed Gorffennaf | CESTYLL a GWARTHEG UCHELDIR YR ALBAN | £720 | 6 Diwrnod |
| Iau 17eg Gorffennaf | Taith Fyr I'r COTSWOLDS | £310 | 3 Diwrnod |
| Llun 21ain Gorffennaf | GORORAU CYMRU | £520 | 5 Diwrnod |
| Sul 27ain Gorffennaf | AGER, JIN a'r NEW FOREST yn HAMPSHIRE | £530 | 5 Diwrnod |
| Gwe 1af Awst | Taith i Stiwdio yr enwog CORONATION STREET | £380 | 4 Diwrnod |
| Sad 2ail Awst | AWSTRIA a'i Olygfeydd Godidog yn LERMOS a INNSBRUK | £1,200 | 8 Diwrnod |
| Sul 10fed Awst | NEWCASTLE a NORTHUMBRIA | £645 | 6 Diwrnod |
| Gwe 15fed Awst | BRYSTE a CHAERFADDON / BRISTOL and BATH | £450 | 4 Diwrnod |
| Llun 18fed Awst | ?????????? TAITH DDIRGEL yr HAF ?????????? | £650 | 5 Diwrnod |
| Sul 24ain Awst | RHYFEDDODAU WATERFORD yn IWERDDON | £635 | 5 Diwrnod |
| Iau 28ain Awst | NOTTINGHAM ac ARDAL ROBIN HOOD | £420 | 4 Diwrnod |
| Llun 1af Medi | GOLEUANNAU BLACKPOOL ILLUMINATIONS | £405 | 5 Diwrnod |
| Gwe 5ed Medi | Crwydro BUXTON a BAKEWELL (Ystafelloedd Sengl yn unig) | £445 | 4 Diwrnod |
| Sul 7fed Medi | ARDAL y LLYNNOEDD. Taith mewn Cwch Ager ac ar Dren Ager | £645 | 5 Diwrnod |
| Sul 14eg Medi | LLANDUDNO a Thaith ar Rheilffordd Ucheldir Cymru | £650 | 5 Diwrnod |
| Llun 15fed Medi | Taith ar Dren Ager yn NORFOLK ac ymweliad a Sandringham | £595 | 5 Diwrnod |
| Sul 21ain Medi | LLYN GARDA a'r DOLOMITES yn yr EIDAL | £1,350 | 10 Diwrnod |
| Gwe 26ain Medi | TORQUAY a CHASTELL POWDERHAM | £430 | 4 Diwrnod |
| Gwe 3ydd Hyd | ???????? TAITH DDIRGEL YR HYDREF ???????? | £455 | 4 Diwrnod |
| Llun 6ed Hyd | GOLEUANNAU BLACKPOOL ILLUMINATIONS | £405 | 5 Diwrnod |
| Iau 9fed Hyd | Chwedlau a Thirweddau YNYS MANAW | £665 | 6 Diwrnod |
| Gwe 10fed Hyd | Port Isaac, Padstow, Mevagissey a LOOE ar Afordir CERNYW | £370 | 4 Diwrnod |
| Gwe 17eg Hyd | Elvis Presley, Tina Turner a Lionel Richie yn BABBACOMBE | £315 | 4 Diwrnod |
| Sul 19eg Hyd | Rhydychen / Oxford, Palas Blenheim a ardal Midsomer Murders | £540 | 5 Diwrnod |
| Gwe 24ain Hyd | WESTON SUPER MARE | £385 | 4 Diwrnod |
| Sul 26ain Hyd | TAITH DDIRGEL i IWERDDON | £685 | 6 Diwrnod |
| Llun 27ain Hydref | LUDLOW a IRONBRIDGE | £545 | 5 Diwrnod |
| Llun 3ydd Tach | BELGRAVE SANDS " Torquay & Tinsel" | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwe 7fed Tach | DERBY ac ymweld a Marchnad Nadolig CHATSWORTH HOUSE | £335 | 3 Diwrnod |
| Iau 13eg Tach | "HOLLY and MISTLETOE yn LLANDUDNO | £565 | 5 Diwrnod |
| Gwe 21ain Tach | Marchnadoedd Nadolig MAENCEINION a CAER | £305 | 3 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

# CORLAN

Fe wnaeth aelodau Corlan ymweld ag Amgueddfa Werin Sain Ffagan yn ystod gwyliau'r Pasg. Yno roedd arddangosfa gan un o aelodau'r côr, sef Catherine Davies. Teiliwr yw Catherine, sy'n byw ger Login. Mae ganddi fusnes ei hun, Teilwr Bach, ac mae'n dylunio a chreu cotiau, siacedi a chrysau o wlân Cymreig, hen garthenni a defnydd gwlân cyfoes wedi'u gwehyddu yng Nghymru. Cafwyd diwrnod arbennig yno, ac ar ôl ymweld â'r arddangosfa, bu'r aelodau o amgylch Sain Ffagan, cyn gorffen y dydd â phryd o fwyd blasus yn y Butchers, Llanddarog.

Rydym yn ymfalchïo yn llwyddiant Catherine ac yn ei llongyfarch yn fawr ar ei harddangosfa. Dymunwn yn dda iddi gyda'i busnes unigryw.

Gweler yr erthygl isod gan Catherine - Y Teilwr Bach.



Aelodau Corlan yn yr arddangosfa

## Y Teilwr Bach

Buodd côr Corlan yn ymweld ag arddangosfa Cot Wlân Gymreig Wrth Fesur yn Amgueddfa Sain Ffagan mis diwethaf. Mae Catherine Davies (Teilwr Bach) yn aelod o'r côr. Dyma ychydig o wybodaeth am y gwaith...

**Cot Wlân Gymreig Wrth Fesur**
Prosiect / Arddangosfa Celf Teilwra yn dathlu teilwra traddodiadol a sgrin-brintio, yn hyrwyddo ffasiwn araf ac yn ymgysylltu grwpiau cymunedol a'r cyhoedd â hanes a threftadaeth wlân Cymru. Gwnaed gan Teilwr Bach ac Oasis Caerdydd mewn cydweithrediad, wedi ei ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Cyflwynir cotiau, siacedi a chrysau gwlân wrth fesur, a wneir o hen garthenni neu ddefnydd Cymreig wedi ei wehyddu.



Catherine yn dangos un o'r cotiau



Tu fewn i bob dilledyn mae yna leinin ac arno batrwm wedi ei sgrin-brintio sy'n helpu i ddweud stori'r defnydd neu'r garthen.
Cafodd y patrymau print hyn eu dylunio gan artistiaid lleol, a ysbrydolwyd gan y melinau a'r ffatrïoedd gwlân, y broses wehyddu, yr amgylchfyd naturiol a hanes lleol. Printiwyd y defnydd leinin i gyd gan The Printhaus, Caerdydd.

**Teilwr Bach**
Catherine Davies yw Teilwr Bach, teiliwr a dylunwraig a aned yng Nghaerdydd, bellach yn byw yn Login, Sir Gaerfyrddin.

Yn arbenigo mewn teilwra wrth fesur a chynaliadwy, o'r cynllun i'r creu, yn llunio patrymau unigryw i gyd-fynd â mesuriadau personol ac yn defnyddio technegau teilwra traddodiadol.

Ymarferir cynaliadwyedd trwy gyrchu defnydd gwlân Cymreig, hen garthenni a defnydd gwlân cyfoes wedi'u gwehyddu yng Nghymru, i wneud cotiau, siacedi a chrysau unigryw.

PEIRIANNEG
MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERIO
Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL
01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

SPAR
Llanboidy
Swyddfa Bost
Nwyddau o bob math
Diodydd
Loteri
SWYDDFA'R POST
Ffôn: 01994 448221

Jones Login
Teithiau o Safon
Gwasanaeth o'r safon uchaf
Login, Hendy-gwyn ar Daf
Sir Gaerfyrddin. SA34 0UX
Ffôn: 1437 563277
info@joneslogin.co.uk
www.joneslogin.co.uk

Yn ystyriol o'r amgylchedd ac yn eiriolwr dros 'ffasiwn araf', mae Catherine yn ymdrechu i ailgylchu a dod o hyd i ddeunyddiau yn foesegol ac yn lleol. Roedd ei thad-cu yn ffermwr defaid yng ngogledd Sir Benfro, ac mae'n frwd dros hybu gwlân Cymreig a chefnogi melinau gwlân Cymru.

Gyda'i diddordeb mewn prosesau creu tecstilau ac wrth ei bodd â chelf, dylunio a manylion byd natur ac arferion creadigol, mae Catherine yn dylunio patrymau print ac yn cydweithio ag artistiaid a gwneuthurwyr print i greu defnyddiau leinin gwreiddiol wedi'u sgrin-brintio.

Trwy roi cysyniad i'w gwaith teilwra ar ffurf defnydd leinin printiedig sy'n adrodd stori, mae'n troi dillad yn ddarnau celf y gellir eu gwisgo.




Dyma ddwy got o waith Catherine. Mae'r got ar y chwith yn eiddo i Helen Davies, Blaenffos wedi ei gwneud allan o garthen gymreig o Ffatri Wlan Star.

**Oasis Caerdydd**
Mae Oasis Caerdydd yn sefydliad elusennol sy'n rhoi croeso cynnes Cymreig i ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'u helpu i integreiddio o fewn y gymuned leol.

Gan gynnig cinio, cyngor, gwersi iaith, sesiynau lles a gweithdai creadigol am ddim, mae Oasis yn rhywle dibynadwy, diogel a chartrefol sy'n gyfarwydd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches ar draws De Cymru.

Mae'r ystod o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau yn galluogi Oasis i ddarparu cymorth cyfannol i bobl sy'n chwilio am noddfa.

Yn 2020, sefydlwyd prosiect Blancot gan Teilwr Bach mewn cydweithrediad ag Oasis. Prosiect teilwra cynaliadwy, diwastraff ydyw, sy'n troi hen garthenni Cymreig yn gotiau ac eitemau llai.

Ers hynny mae Catherine (Teilwr Bach) wedi cydlynu gweithdai wythnosol yng nghanolfan Oasis, gan addysgu sgiliau gwnïo a theilwra. Mae cyfranogwyr yn cael cyfle i wella eu cyflogadwyedd a'u sgiliau iaith a chael ymdeimlad o les a chyflawniad. Yn cael ei ariannu ar hyn o bryd gan y gronfa dreftadaeth, mae cyllidwyr blaenorol yn cynnwys Sefydliad Teulu Ashley a Viridor Prosiect Gwyrdd.

Yng nghyd-destun y prosiect hwn, mae cleientiaid a gwirfoddolwyr Oasis wedi bod yn gwneud sliperi, bagiau a selsig drws gan ddefnyddio toriadau gwastraff y prosiect ac hefyd wedi ymweld â rhai o felinau gwlân cefn gwlad Cymru.

"Hoffwn ddweud diolch o galon i bawb a phob sefydliad sydd wedi cyfrannu, cymryd rhan a chefnogi'r prosiect.

Mae'r daith wedi bod yn brofiad arbennig iawn ac yn fraint i gydweithio gyda chymaint o bobl ddiddorol, angerddol a thalentog.

Mae'r gwaith yn dathlu cymaint o grefftiau a sgiliau creadigol, a dwi'n teimlo ei bod yn cyflwyno treftadaeth gwlân Cymru mewn ffordd liwgar ac egnïol, gan edrych yn frwdfrydig i'r dyfodol.

Mae rhoi bywyd newydd i hen garthen, trwy ei gwisgo, nid yn unig yn ffordd o gofio a dathlu ein treftadaeth wlân yng Nghymru, ond hefyd yn ffordd o hyrwyddo ffasiwn gylchol a chynaliadwy.

Dw i'n falch iawn o'r hyn sydd wedi ei gyflawni ac yn awyddus nid yn unig i gefnogi y grefft o wehyddu yng Nghymru ond hefyd i hyrwyddo gwlân Cymreig. Hoffwn weld is-adeiledd y diwydiant yng Ngymru yn ailddatblygu fel bo ni'n gallu troi mwy o wlân Cymreig mewn i ddefnydd a dillad trawiadol.

Cysylltwch os hoffech grys, siaced neu got wrth fesur…."

Gweler mwy am y prosiect ar Instagram @teilwr_bach / @blan_cot



Gweithdy gwnïo Oasis



Bu'r arddangosfa yn Sain Ffagan o Dachwedd 2024 hyd ddiwedd Ebrill 2025.

# CYFRES Wenfro – Eisteddfota!

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/06/25**

Alys Vaughan o Gaerdydd yw enillydd Cystadleuaeth Parau o Wyau!

Ateb: Wyau rhif 2 ac 13 oedd heb bâr.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2025

Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.

## CYNLLUN PROFI, MENTER GORLLEWIN SIR GÂR, YN EHANGU A DATBLYGU

Nod Cynllun Profi a rheolir gan Fenter Gorllewin Sir Gâr yw gwella sgiliau byd gwaith pobl ifanc a'u hysbrydoli i ymgeisio'n hyderus am gyfleoedd lleol er mwyn creu cymunedau naturiol dwyieithog a llewyrchus.
Drwy gynnig cymorth ac addasu'r cyngor i annog profiadau dysgu pobl, rydym yn annog dysgwyr i ddarganfod a datblygu eu cryfderau a'u sgiliau unigol a manteisio ar gyfleoedd fel profiad gwaith, gwirfoddoli a gwaith rhan amser i wella eu sgiliau.

Mae gwefan www.profi.cymru wedi'i greu gyda chynnwys digidol, apelgar i gynorthwyo pobl ifanc i ddod yn fwy ymwybodol o'u sgiliau a'u cryfderau unigol er mwyn ymgeisio am gyfleoedd yn y dyfodol, a'u hannog i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr cymdeithas.

Mae'r cynllun, a ddechreuodd fel peilot yn 2016, yn parhau i fynd o nerth i nerth ac rydym yn gyffrous i dderbyn cadarnhad bod Profi wedi bod yn llwyddiannus wrth geisio am grant gwerth £499,518 o Gronfa Gymunedol Y Loteri, Pawb a'i Le. Bydd hyn yn caniatáu i ni i esblygu'r cynllun ymhellach dros gyfnod o bedair blynedd, gan gefnogi 3,000 o bobl ifanc i ddatblygu sgiliau byd gwaith a'u hannog i ddathlu eu llwyddiannau, annog 2,000 i gofrestru ar www.profi.cymru a gallu gwneud defnydd o'r adnoddau yno.

"Mae derbyn cyllid gan Gronfa Gymunedol Pawb a'i Le'n newyddion gwych," medd Cydlynydd Prosiect Profi, Meinir Evans. "Byddwn yn awr yn gallu mynd ati i ddatblygu'r cynllun ymhellach gan gefnogi 3,000 o bobl ifanc a darparu unedau Agored Cymru drwy weithio mewn partneriaeth gyda 'Prosiect Cadarnhad' PLANED gan gynnig cymhwyster ar gyfer 400 o ddysgwyr yn Sir Gâr a Cheredigion. Mae derbyn y grant yn ein galluogi i hyrwyddo 200 cyfle lleol a fydd yn addas i bobl ifanc yn cynnwys swyddi, prentisiaethau, profiad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli a chyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth am fanteision yr iaith Gymraeg ar gyfer byd gwaith i 1,200."
Rydym yn awyddus i barhau i ddatblygu ac ehangu ymhellach a chroesawir pobl a sefydliadau i gysylltu i sicrhau fod ein pobl ifanc yn llwyddo ac yn cyrraedd eu llawn potensial.

Cyfryngau Cymdeithasol:
Facebook - Cynllun Profi • Instagram - @cynllunprofi • YouTube - @mentergorllewinsirgar4555
Podlediadau - Pod Profi (spreaker.com) • Gwefan - www.profi.cymru

Am ragor o fanylion cysylltwch ar post@profi.cymru neu ar 01239 712 934




**Adran Iau** *parhad o dudalen 40*
Mae'r tymor yr Adran Iau hefyd yn dod i ben, ond bydd ein timau yn cymryd rhan mewn nifer o gystadlaethau dros yr haf bydd ein timau yn cymryd rhan ynddynt. Diolch yn fawr iawn i'r holl hyfforddwyr sydd wedi bodloni cynorthwyo'r amryw o dimoedd dros y tymor.

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r Clwb. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch â ni ar ein cyfryngau cymdeithasol. *Rhodri Lewis*


Tîm Ieuenctid Llanboidy gyda'u hyfforddwyr; Rhodri, Dafydd a Gethin



# CHWARAEON

## Clwb Rygbi San Clêr



**Tîm Cyntaf**
Dim gemau yn ystod y mis diwethaf gan fod gemau'r gynghrair wedi eu cwblhau. Gwnaethom orffen y tymor yn y 5ed safle yn Adran 1 y Gorllewin a rydym yn edrych ymlaen i adeiladu ar hyn y tymor nesaf.

**Tîm Ieuenctid**
Cafodd gemau'r gynghrair eu cwblhau ar Ebrill 19eg wrth i'r Seintiau ifanc groesawu Llangennech i Barc Griffith Jones. Gwnaeth y bechgyn fanteisio ar y cyfle i orffen y tymor ar nodyn uchel gyda buddugoliaeth wych 31 - 0, gan ennill cynghrair Sir Gaerfyrddin B, a hynny ar ôl ennill pob gêm ers y Nadolig. Llongyfarchiadau mawr i'r bechgyn, gwelir y garfan yn y llun isod ar ddiwedd tymor llwyddiannus iawn.

**Tim Datblygu / 2il dim**
Cafodd gêm ola'r tymor ei chwarae ar Barc Griffith Jones ar Mai 3ydd, yn erbyn Felinfoel ac er i'r Seintiau fod 3 - 0 ar y blaen ar hanner amser, roedd carfan Felinfoel yn rhy gryf i ni ac aethant ymlaen i sgorio 3 chais yn yr ail hanner gan ennill 3 - 19. Byddant yn chwarae yn erbyn Trimsaran yn rownd derfynol y Plât ym Mharc y Sgarlets ar Mai 17eg, pob dymuniad da iddynt yno.

Byddwn yn dathlu'r tymor yn ystod ein cinio blynyddol a gynhelir yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin ar nos Sul, Mai 25ain.

Diolch o galon i'n cefnogwyr am eich cefnogaeth barhaus drwy gydol y tymor, gwerthfawrogir hyn yn fawr iawn gan y pwyllgor, hyfforddwyr a'r chwaraewyr.

*Gwyndaf Williams*



## Clwb Pel-droed Llanboidy

**Tymor 2024-25**
Mae tymor 2024-25 yn dod i ben i Glwb Pêl-droed Llanboidy, gyda'r ail dîm wedi chwarae eu holl gemau am y tymor, a'r tîm cyntaf ond ag ambell un i fynd.

**Tîm 1af**
Mae ein tîm cyntaf sydd yn chwarae yn Adran 1 Ceredigion am 2024-25, wedi chwarae dwy gêm dros y mis diwethaf ac wedi ennill y ddwy a hynny mewn gemau cwpan y "Bay Cup". Golyga hyn fod gêm gynderfynol i ddod yn erbyn Sêr Dewi adref. Yn ogystal â hyn, mae un gêm gynghrair ganddynt adref yn erbyn Felinfach.

Ebrill 26ain: Llanboidy 2-0 Llambed (Frazer Wyatt + Calum Syddall)
Mai 3ydd: Llanboidy 7-0 Ffostrasol ll (Geth Scourfield 2, Daf Jones 2, Calum Syddall + Frazer Wyatt)

**2il Dîm**
Mae'r ail dîm yn chwarae yn Adran 3 Ceredigion yn nhymor 2024-25 o dan arweinyddiaeth Chris Bowen. Maent wedi chwarae tair gêm dros y mis diwethaf, ennill dwy, a cholli un. Gyda'r tymor wedi gorffen, golyga hyn ei bod wedi gorffen yn y 6ed safle yn y gynghrair.

Ebrill
12fed: Llanboidy 0-2 Llandudoch
19eg: Llanboidy 6-2 Felinfach (Rhodri Lewis 2, Geth Scourfield 2, Gwion Jones + Lewis Thompson)
24ain: Aberteifi 2-5 Llanboidy (Lewis Thompson 2, Gwion Jones, Huw Howells, Geth Scourfield)

**Tîm Ieuenctid**
Am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn, cafodd y Clwb dîm ieuenctid i chwarae yng nghystadleuaeth ieuenctid Ceredigion. Chwaraewyd gêm gyfeillgar yn erbyn Crymych yn Llanboidy cyn mynd fyny i chwarae yn erbyn Felinfach; enillwyr y cwpan am y ddwy flynedd diwethaf. Diolch i Rhodri Lewis, Daf Jones a Geth Scourfield am hyfforddi'r bechgyn. Yn anffodus colli wnaethant o 3-0, ond cafwyd gêm dda iawn yn erbyn tîm cryf iawn.

*parhad ar dudalen 39*